# Manyleb cymhwyster

**NCFE CACHE Dyfarniad Lefel 3 mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu**
**Rhif: 603/2495/8**

**NCFE CACHE Tystysgrif Lefel 3 mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu**
**Rhif: 603/2498/3**

**NCFE CACHE Diploma Lefel 3 mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu**
**Rhif: 603/2496/X**

**Fersiwn 6.4** Tachwedd 2023

**Ewch i** ncfe.org.uk **Ffoniwch** 0191 239 8000

# Cynnwys

**Crynodeb o newidiadau** **4**

**Adran 1** **6**
**Ynglŷn â'r cymwysterau hyn** **7**
Llawlyfr Cymorth 7
Crynodeb o'r Cymhwyster – Dyfarniad 8
Crynodeb o'r Cymhwyster – Tystysgrif 10
Crynodeb o'r Cymhwyster – Diploma 12
Canllawiau mynediad 14
Cyflawni'r cymwysterau hyn 14
Unedau 15
Dilyniant i astudiaethau lefel uwch 17
Sut y caiff y cymwysterau eu hasesu 17
Asesiad mewnol 18

**Adran 2** **19**
**Cynnwys unedau a chanllawiau asesu** **20**
STL3C1: Ysgolion a cholegau fel sefydliadau 21
STL3C2: Cefnogi iechyd a diogelwch mewn amgylchedd dysgu 25
STL3C3 Deall sut i ddiogelu plant a phobl ifanc 29
STL3C4: Datblygu perthnasoedd proffesiynol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion 35
STL3C5: Deall sut mae plant a phobl ifanc yn datblygu 39
STL3C6: Cefnogi ymddygiad cadarnhaol mewn plant a phobl ifanc 43
STL3C7: Cefnogi plant a phobl ifanc yn ystod gweithgareddau dysgu 46
STL3C8: Cefnogi sgiliau Saesneg a mathemateg* 48
STL3C9: Cefnogi'r defnydd o TGCh yn yr amgylchedd dysgu 50
STL3C10: Cefnogi asesu ar gyfer dysgu 53
STL3C11: Cymryd rhan mewn datblygiad personol a phroffesiynol 58
STL3D12: Cefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu plant a phobl ifanc 62
STL3D13: Deall sut i gefnogi dysgwyr dwyieithog 66
STL3D14: Deall sut i gefnogi dysgu plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau 69
STL3D15: Cefnogi plant a phobl ifanc yn ystod trawsnewidiadau 74
STL3D16: Cefnogi rôl chwarae, hamdden a gweithgareddau allgyrsiol i blant a phobl ifanc 77
Dulliau asesu a argymhellir 81
Strategaethau ac egwyddorion asesu sy'n berthnasol i'r cymwysterau hyn 83
Strategaeth asesu 83
Gofynion ar gyfer Aseswyr a Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol **Error! Bookmark not defined.**
Aseswyr 84
Sicrhau Ansawdd Mewnol 85

**Adran 3** **86**
**Esboniad o dermau** **87**

**Adran 4** **89**
**Gwybodaeth ychwanegol** **90**
Gofynion o ran adnoddau 90
Canllawiau diogelu 90
Cymorth i ganolfannau 90

Adnoddau dysgu 90
Cyfresi wedi'u nythu 90
Cysylltu â ni 91

**Crynodeb o newidiadau**

**Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r newidiadau i Fanyleb y Cymhwyster hwn.**

| Fersiwn | Dyddiad Cyhoeddi | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| v1.0 | Ionawr 2018 | Cyhoeddiad Cyntaf |
| v1.1 | Chwefror 2018 | Gwerth credyd wedi newid o 5 i 4:<br>STL3C7: Cefnogi plant a phobl ifanc yn ystod gweithgareddau dysgu |
| v2.0 | Ebrill 2018 | Newid i 2.1 a 3.3 o'r meini prawf asesu ar gyfer A/616/5879:<br>STL3C2: Cefnogi iechyd a diogelwch mewn amgylchedd dysgu. Mae'r newidiadau wedi'u gwneud i osgoi dryswch posibl. |
| v3.0 | Medi 2018 | Newid i ODDA ar gyfer Dyfarniad, Tystysgrif a Diploma, a 12 uned (STL3C1, STL3C6, STL3C7, STL3C8, STL3C9, STL3C10, STL3C11, STL3D12, STL3D13, STL3D14, STL3D15, STL3D16)<br>Ychwanegu 'Gwybodaeth ychwanegol ar gyfer yr uned hon' ar gyfer 10 uned (STL3C2, STL3C3, STL3C5, STL3C6, STL3C8, STL3C10, STL3C11, STL3D14, STL3D15, STL3D16) |
| v4.0 | Tachwedd 2018 | Ychwanegu Dyrannwyd pwyntiau UCAS i'r cymhwyster hwn. Cyfeiriwch at wefan UCAS i gael rhagor o fanylion am y dyraniad pwyntiau a'r wybodaeth ddiweddaraf.<br>gwybodaeth ar gyfer y Diploma |
| v5.0 | Rhagfyr 2018 | Ychwanegu LO6:<br>STL3C2: Cefnogi iechyd a diogelwch mewn amgylchedd dysgu<br>Diwygio MPA4.3:<br>STL3C4: Datblygu perthnasoedd proffesiynol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion |
| v5.1 | Ebrill 2019 | Ychwanegu Canllawiau diogelu |
| v6.0 | Mehefin 2019 | Diweddaru templed Manyleb Cymhwyster.<br>Ychwanegu tasgau asesu ar gyfer pob uned sydd â chanlyniadau dysgu gwybodaeth.<br>Dileu LO6 o, ac ychwanegu datganiad cefnogi at<br>STL3C2: Cefnogi iechyd a diogelwch mewn amgylchedd dysgu |
| v6.1 | Medi 2019 | Ychwanegu eglurder at ref A – Dull Asesu, ar dudalen 78. |
| v6.2 | Chwefror 2020 | Ychwanegu eglurder at Grynodeb o'r Cymhwyster ar gyfer y Dystysgrif a'r Diploma, ynghylch lleoliad gwaith.<br>Dileu'r DU o fewn 'Gwledydd Cartref y DU' trwy'r cymhwyster.<br>Newid i STL3C9: Cefnogi'r defnydd o TGCh yn yr amgylchedd dysgu - MPA 2.2, i'w gwneud yn fwy cryno i'r hyn sy'n ofynnol i'w gyflawni.<br>Ychwanegu gwybodaeth am ddiogelu a llesiant dysgwyr at Adran 1. |
| v6.3 | Mehefin 2023 | Ychwanegu gwybodaeth am UCAS at Gwybodaeth am y cymhwyster hwn, Crynodeb o'r Cymhwyster |
| V6.4 | Tachwedd 2023 | Ychwanegwyd Gwyddeleg at y canllawiau cyflwyno ac asesu ar dudalen 49 ar gyfer uned STL3C8 Cefnogi sgiliau Saesneg a mathemateg |

# Adran 1

## Ynglŷn â'r cymwysterau hyn

## Ynglŷn â'r cymwysterau hyn

Mae'r Fanyleb Cymhwyster hon yn cynnwys manylion am yr holl unedau ac asesiadau y byddwch angen eu cwblhau i gyflawni'r cymwysterau hyn.

Er mwyn sicrhau eich bod yn defnyddio'r fersiwn diweddaraf o'r Fanyleb Cymhwyster hon, gwiriwch rif y fersiwn a'r dyddiad ar waelod y dudalen yn erbyn y Fanyleb Cymhwyster ar wefan NCFE.

Os byddwch yn hysbysebu'r cymwysterau hyn gan ddefnyddio enw gwahanol neu fyrrach, rhaid i chi sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol y bydd eu tystysgrif derfynol yn nodi teitl llawn y cymhwyster rheoledig.

Mae canolfannau **cymeradwy** yn gallu atgynhyrchu ar gyfer defnydd mewnol dan yr amodau canlynol:

- cewch gopïo a gludo unrhyw ddeunydd o'r ddogfen hon; fodd bynnag, ni dderbyniwn unrhyw atebolrwydd am unrhyw gopïo anghyflawn neu wallus nac unrhyw ddefnydd pellach a wneir o'r wybodaeth.
- bydd defnyddio fersiynau PDF o'n deunyddiau cymorth ar wefan NCFE yn sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir i ddysgwyr yn gywir a chyfredol.
- ein heiddo ni yn unig yw unrhyw luniau sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn neu fe'u defnyddir o dan drwydded gan drydydd parti. Fe'u diogelir yn ôl cyfraith hawlfraint, ac ni ellir eu hatgynhyrchu, eu copïo na'u haddasu drwy unrhyw fodd. Mae hyn yn cynnwys y defnydd o unrhyw ddelwedd neu ran o ddelwedd mewn prosiectau unigolyn neu grŵp a deunyddiau asesu. Mae pob delwedd yn destun cytundeb rhyddhau ffurfiol.
- Rhaid i'r adnoddau a'r deunyddiau a ddefnyddir wrth gyflwyno'r cymwysterau hyn fod yn briodol i oedran a dylid rhoi ystyriaeth briodol i lesiant a diogelu dysgwyr yn unol â pholisi diogelu eich sefydliad wrth ddatblygu neu ddewis deunyddiau cyflenwi.

## Llawlyfr Cymorth

Rhaid defnyddio'r Fanyleb Cymhwyster hon ochr yn ochr â'r Llawlyfr Cymorth gorfodol ar y dudalen Cymwysterau ar wefan NCFE, sy'n cynnwys gwybodaeth ategol ychwanegol i helpu gyda'r cynllunio, cyflwyno ac asesu, megis:

- diffiniad o Gyfanswm Amser y Cymhwyster (TQT)
- sicrhau ansawdd
- gofynion staffio
- asesiad
- cymorth cymhwyster
- cydraddoldeb ac amrywiaeth
- cyfleoedd cyfartal.

Mae'r Fanyleb Cymhwyster hon yn cynnwys yr holl wybodaeth benodol i'r cymhwyster y bydd ei hangen arnoch nad yw'n cael ei chynnwys yn y Llawlyfr Cymorth.

| **Crynodeb o’r Cymhwyster – Dyfarniad** | |
|---|---|
| **Teitl y cymhwyster** | NCFE CACHE Dyfarniad Lefel 3 mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu |
| **Rhif y cymhwyster (QN)** | 603/2495/8 |
| **Cyfeirnod** | 60324958 |
| **Cyfanswm Amser y Cymhwyster (TQT)** | 120 |
| **Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODDA)** | 80 |
| **Gwerth credyd** | 12 |
| **Oedran lleiaf** | 16 |
| **Ystod oedran yr ymdrinnir ag ef yn y cymhwyster** | O bum mlwydd oed. Sylwch fod rhywfaint o wybodaeth am ddatblygiad yn y blynyddoedd cynnar wedi'i chynnwys yn y fanyleb i wella dealltwriaeth dysgwyr. |
| **Diben y cymhwyster** | Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o'r wybodaeth sydd ei hangen wrth weithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc mewn amgylchedd ysgol neu goleg. Bydd yn galluogi dysgwyr i gael dealltwriaeth o elfennau gan gynnwys datblygiad plant a phobl ifanc a diogelu eu lles. |
| **Nodau ac amcanion** | Nod y cymhwyster hwn yw:<br>• canolbwyntio ar astudio sut i gefnogi addysgu a dysgu<br>• cynnig ehangder a dyfnder wrth astudio, gan ymgorffori craidd allweddol o wybodaeth.<br><br>Amcanion y cymhwyster hwn yw:<br>• rhoi’r wybodaeth a’r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar ddysgwyr i weithio mewn amgylchedd ysgol neu goleg<br>• darparu cam tuag at ddysgu pellach o fewn y sector. |
| **Profiad lleoliad gwaith/diwydiant** | Cymhwyster sy'n seiliedig ar wybodaeth yn unig yw hwn. Nid yw profiad lleoliad gwaith/diwydiant yn ofynnol. |
| **Gofynion/argymhellion o ran amgylchedd gwaith real** | Cymhwyster sy'n seiliedig ar wybodaeth yn unig yw hwn. Nid yw profiad yn yr amgylchedd gwaith go iawn yn ofynnol. |
| **Rheolau cyfuno** | Er mwyn cyflawni’r cymhwyster hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr gwblhau 4 uned orfodol yn llwyddiannus. |
| **Graddio** | Wedi Cyflawni/Heb Gyflawni Hyd Yma |

| | |
|---|---|
| **Dull asesu** | Asesiad mewnol a phortffolio o dystiolaeth sy’n destun sicrhau ansawdd allanol |
| **Gofynion asesu pellach** | Rhaid asesu pob uned yn unol â'n hegwyddorion asesu.<br><br>Drwy gydol y fanyleb hon, rydym wedi cyfeirio at yr ymadrodd 'Amgylchedd Dysgu', sy'n cyfeirio at y gwahanol fathau o ysgolion a cholegau.<br><br>**D.S.: Darperir tasgau asesu er cyfleustra Tiwtoriaid yn y ddogfen hon. Nid ydynt yn orfodol.** |
| **Dilyniant** | Gall dysgwyr sy’n cyflawni’r cymhwyster hwn symud ymlaen i Dystysgrif Lefel 3 mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu, neu i'r gweithlu. |
| **Gwybodaeth am reoleiddio** | Mae’r cymhwyster hwn wedi’i reoleiddio. Rhif rheoledig y cymhwyster hwn yw 603/2495/8. |
| **Cyllid** | Gall y cymhwyster hwn fod yn gymwys i gael cyllid. Am arweiniad pellach ar gyllid, cysylltwch â'ch darparwr cyllid lleol. |

| **Crynodeb cymhwyster – Tystysgrif** | |
|---|---|
| **Teitl y cymhwyster** | NCFE CACHE Tystysgrif Lefel 3 mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu |
| **Rhif y cymhwyster (QN)** | 603/2498/3 |
| **Cyfeirnod** | 60324983 |
| **Cyfanswm Amser y Cymhwyster (TQT)** | 350 |
| **Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODDA)** | 210 |
| **Gwerth credyd** | 35 |
| **Oedran lleiaf** | 16 |
| **Ystod oedran yr ymdrinnir ag ef yn y cymhwyster** | O bum mlwydd oed. Sylwch fod rhywfaint o wybodaeth am ddatblygiad yn y blynyddoedd cynnar wedi'i chynnwys yn y fanyleb i wella dealltwriaeth dysgwyr. |
| **Diben y cymhwyster** | Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o'r wybodaeth sydd ei hangen wrth weithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc mewn amgylchedd ysgol neu goleg. Bydd yn galluogi dysgwyr i gael dealltwriaeth o elfennau gan gynnwys datblygiad plant a phobl ifanc, diogelu eu lles a chyfathrebu a pherthnasoedd proffesiynol. |
| **Nodau ac amcanion** | Nod y cymhwyster hwn yw:<br><br>• canolbwyntio ar astudio sut i gefnogi addysgu a dysgu<br>• cynnig ehangder a dyfnder wrth astudio, gan ymgorffori craidd allweddol o wybodaeth<br>• darparu cyfleoedd i gaffael nifer o sgiliau ymarferol a thechnegol.<br><br>Amcanion y cymhwyster hwn yw:<br><br>• rhoi’r wybodaeth a’r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr i weithio mewn amgylchedd ysgol neu goleg<br>• darparu cam tuag at ddysgu pellach o fewn y sector. |
| **Profiad lleoliad gwaith/diwydiant** | Gan fod angen i ddysgwyr ddangos cymhwysedd mewn sgiliau a gwybodaeth, bydd angen iddynt fod yn gweithio neu ar leoliad ymarferol drwy gydol y rhaglen astudio a addysgir, mewn amgylchedd dysgu (ysgol neu goleg). Mae CACHE yn argymell bod y dysgwr yn ymgymryd â 100 awr ar leoliad mewn amgylchedd gwaith real.<br><br>Mae'r oriau uchod yn argymhellion, nid isafswm gorfodol o oriau ar leoliad. Felly nid ydynt yn rhan o gyfrifiad TQT. |

| | |
|---|---|
| **Gofynion/argymhellion o ran amgylchedd gwaith real** | 100 awr (argymhellir)<br><br>Ni chaniateir efelychu. |
| **Rheolau cyfuno** | Er mwyn cyflawni'r cymhwyster hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr gwblhau 11 uned orfodol yn llwyddiannus. |
| **Graddio** | Wedi Cyflawni/Heb Gyflawni Hyd Yma |
| **Dull asesu** | Asesiad mewnol a phortffolio o dystiolaeth sy'n destun sicrhau ansawdd allanol |
| **Gofynion asesu pellach** | Rhaid asesu pob uned yn unol â'n hegwyddorion asesu.<br><br>Drwy gydol y fanyleb hon, rydym wedi cyfeirio at yr ymadrodd 'Amgylchedd Dysgu', sy'n cyfeirio at y gwahanol fathau o ysgolion a cholegau.<br><br>Ni chaniateir efelychu.<br><br>**D.S.: Darperir tasgau asesu er cyfleustra Tiwtoriaid yn y ddogfen hon. Nid ydynt yn orfodol.** |
| **Dilyniant** | Gall dysgwyr symud ymlaen i'r Ddiploma Lefel 3 mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu, neu i'r gweithlu. |
| **Gwybodaeth am reoleiddio** | Mae'r cymhwyster hwn wedi'i reoleiddio. Rhif rheoledig y cymhwyster hwn yw 603/2498/3 |
| **Cyllid** | Gall y cymhwyster hwn fod yn gymwys i gael cyllid. Am arweiniad pellach ar gyllid, cysylltwch â'ch darparwr cyllid lleol. |

| **Crynodeb cymhwyster – Diploma** | |
|---|---|
| **Teitl y cymhwyster** | NCFE CACHE Diploma Lefel 3 mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu |
| **Rhif y cymhwyster (QN)** | 603/2496/X |
| **Cyfeirnod** | 6032496X |
| **Cyfanswm Amser y Cymhwyster (TQT)** | 530 |
| **Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODDA)** | 310 |
| **Gwerth credyd** | 53 |
| **Oedran lleiaf** | 16 |
| **Ystod oedran yr ymdrinnir ag ef yn y cymhwyster** | O bum mlwydd oed. Sylwch fod rhywfaint o wybodaeth am ddatblygiad yn y blynyddoedd cynnar wedi'i chynnwys yn y fanyleb i wella dealltwriaeth dysgwyr. |
| **Diben y cymhwyster** | Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi dealltwriaeth fanwl i ddysgwyr o'r wybodaeth a’r sgiliau sydd eu hangen wrth weithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc mewn amgylchedd ysgol neu goleg. Mae'n ymdrin â phob agwedd ar gymorth arbenigol, gan gynnwys: cynllunio; cyflawni ac adolygu strategaethau asesu i gefnogi dysgu ochr yn ochr â'r athro; cefnogaeth ddwyieithog; cefnogaeth anghenion arbennig; datblygiad personol ac ymarfer myfyriol. |
| **Nodau ac amcanion** | Nod y cymhwyster hwn yw:<br>• canolbwyntio ar astudio sut i gefnogi addysgu a dysgu<br>• cynnig ehangder a dyfnder wrth astudio, gan ymgorffori craidd allweddol o wybodaeth<br>• darparu cyfleoedd i gaffael nifer o sgiliau ymarferol a thechnegol.<br><br>Amcanion y cymhwyster hwn yw:<br>• rhoi dealltwriaeth fanwl o’r wybodaeth a’r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr i weithio mewn amgylchedd ysgol neu goleg<br>• darparu cam tuag at ddysgu pellach o fewn y sector. |
| **Profiad lleoliad gwaith/diwydiant** | Gan fod angen i ddysgwyr ddangos cymhwysedd mewn sgiliau a gwybodaeth, bydd angen iddynt fod yn gweithio neu ar leoliad ymarferol drwy gydol y rhaglen astudio a addysgir mewn amgylchedd dysgu (ysgol neu goleg). Ar lefel Diploma, mae CACHE yn argymell bod y dysgwr yn ymgymryd â 100 awr ychwanegol o leoliad mewn amgylchedd gwaith real ar ben yr hyn a gymerir ar lefel y Dystysgrif, sef cyfanswm o 200 awr.<br><br>Mae'r oriau uchod yn argymhellion, nid isafswm gorfodol o oriau ar leoliad. Felly nid ydynt yn rhan o gyfrifiad TQT. |

| | |
|---|---|
| **Gofynion/argymhellion o ran amgylchedd gwaith real** | 200 awr (argymhellir), i'w cwblhau trwy gydol y cymhwyster cyn ardystio.<br><br>Ni chaniateir efelychu. |
| **Rheolau cyfuno** | Er mwyn cyflawni'r cymhwyster hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr gwblhau pob un o'r 16 uned yn llwyddiannus. |
| **Graddio** | Wedi Cyflawni/Heb Gyflawni Hyd Yma |
| **Dull asesu** | Asesiad mewnol a phortffolio o dystiolaeth sy'n destun sicrhau ansawdd allanol |
| **Gofynion asesu pellach** | Rhaid asesu pob uned yn unol â'n hegwyddorion asesu.<br><br>Drwy gydol y fanyleb hon, rydym wedi cyfeirio at yr ymadrodd 'Amgylchedd Dysgu', sy'n cyfeirio at y gwahanol fathau o ysgolion a cholegau.<br><br>Ni chaniateir efelychu.<br><br>**D.S.: Darperir tasgau asesu er cyfleustra Tiwtoriaid yn y ddogfen hon. Nid ydynt yn orfodol.** |
| **Dilyniant** | Gall dysgwyr symud ymlaen i'r Dystysgrif Lefel 4 ar gyfer Ymarferwyr Uwch mewn Ysgolion a Cholegau, gradd sylfaenol neu rolau arbenigol o fewn y gweithlu. |
| **UCAS** | Dyrannwyd pwyntiau UCAS i'r cymhwyster hwn. Cyfeiriwch at wefan UCAS i gael rhagor o fanylion am y dyraniad pwyntiau a'r wybodaeth ddiweddaraf. |
| **Gwybodaeth am reoleiddio** | Mae'r cymhwyster hwn wedi'i reoleiddio. Rhif rheoledig y cymhwyster hwn yw 603/2496/X. |
| **Cyllid** | Gall y cymhwyster hwn fod yn gymwys i gael cyllid. Am arweiniad pellach ar gyllid, cysylltwch â'ch darparwr cyllid lleol. |

**Canllawiau mynediad**

Mae'r Dyfarniad Lefel 3 mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu yn addas ar gyfer dysgwyr nad ydynt eto yn gweithio mewn rôl Lefel 3 mewn ysgol neu goleg ond sy'n gallu cyflawni ar y lefel hon. Mae hefyd yn addas fel hyfforddiant cychwynnol.

Mae'r Dystysgrif Lefel 3 mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu yn addas ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio mewn rolau cymorth mewn ysgolion a cholegau.

Mae'r Diploma Lefel 3 mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu yn addas i ddysgwyr sy'n gweithio mewn rolau sy'n cynnig cymorth arbenigol ar gyfer dysgu disgyblion mewn ysgolion cynradd, uwchradd neu arbennig, yn ogystal â cholegau.

Mae mynediad yn ôl disgresiwn y ganolfan. Fodd bynnag, dylai dysgwyr fod yn 16 oed neu'n hŷn i ymgymryd â'r cymwysterau hyn.

Nid oes unrhyw wybodaeth flaenorol benodol y mae'n rhaid i ddysgwr ei chael ar gyfer y cymwysterau hyn. Fodd bynnag, gallai fod o gymorth i ddysgwyr os ydynt eisoes wedi ennill cymhwyster Lefel 2.

Mae canolfannau yn gyfrifol am sicrhau bod y cymwysterau hyn yn briodol ar gyfer oedran a gallu dysgwyr. Mae angen iddynt sicrhau bod dysgwyr yn gallu cyflawni’r canlyniadau dysgu a chydymffurfio ag agweddau llythrennedd, rhifedd ac iechyd a diogelwch perthnasol y cymwysterau hyn.

Ni ddylai dysgwyr sydd wedi cofrestru ar y cymwysterau hyn ddilyn cymhwyster arall ar yr un lefel gyda'r un teitl neu deitl tebyg, oherwydd gall dyblygu'r dysgu effeithio ar gymhwysedd cyllid.

**Cyflawni'r cymwysterau hyn**

**Dyfarniad Lefel 3 mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu:**
Er mwyn dyfarnu’r cymhwyster hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr gyflawni 4 uned orfodol yn llwyddiannus.

**Tystysgrif Lefel 3 mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu:**
Er mwyn dyfarnu’r cymhwyster hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr gyflawni 11 uned orfodol yn llwyddiannus.

**Diploma Lefel 3 mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu:**
Er mwyn dyfarnu’r cymhwyster hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr gyflawni 16 uned orfodol yn llwyddiannus.

Cyfeiriwch at y rhestr o unedau trosodd neu’r crynodebau uned yn Adran 2 am ragor o wybodaeth.

Er mwyn cyflawni'r cymwysterau hyn, rhaid i ddysgwyr ddangos yn llwyddiannus eu bod wedi cyflawni holl ganlyniadau dysgu’r unedau fel y manylir arnynt ym manyleb y cymhwyster hwn. Gellir gofyn am dystysgrif rannol ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn ennill eu cymhwyster llawn ond sydd wedi cyflawni o leiaf un uned gyfan.

## Unedau

Er mwyn ei gwneud yn haws croesgyfeirio asesu a sicrhau ansawdd, rydym wedi defnyddio system rifo ddilyniannol yn y ddogfen hon ar gyfer pob uned.

Nodir rhif uned wedi'i reoleiddio mewn cromfachau ar gyfer pob uned (e.e. M/100/7116) o fewn Adran 2.

☆ Dynodir unedau gwybodaeth yn unig gan seren. Os nad oes seren yn dynodi uned, mae'n uned sgiliau neu'n uned sy'n cynnwys cymysgedd o sgiliau a gwybodaeth.

## Unedau gorfodol

| | Rhif yr uned | Rhif uned wedi'i reoleiddio | Teitl yr uned | Lefel | Gwerth | ODDA | Dyf | Tyst | Dip | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ☆ | STL3C1 | T/616/5878 | Ysgolion a cholegau fel sefydliadau | 3 | 2 | 10 | ✓ | ✓ | ✓ | |
| ☆ | STL3C2 | A/616/5879 | Cefnogi iechyd a diogelwch mewn amgylchedd dysgu | 3 | 3 | 20 | ✓ | ✓ | ✓ | |
| ☆ | STL3C3 | M/616/5880 | Deall sut i ddiogelu plant a phobl ifanc | 3 | 4 | 25 | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | STL3C4 | T/616/5881 | Datblygu perthnasoedd proffesiynol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion | 3 | 2 | 15 | | ✓ | ✓ | |
| ☆ | STL3C5 | A/616/5882 | Deall sut mae plant a phobl ifanc yn datblygu | 3 | 3 | 25 | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | STL3C6 | F/616/5883 | Cefnogi ymddygiad cadarnhaol mewn plant a phobl ifanc | 3 | 4 | 20 | | ✓ | ✓ | |

| | Rhif yr uned | Rhif uned wedi'i reoleiddio | Teitl yr uned | Lefel | Gwerth | ODDA | Dyf | Tyst | Dip | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | STL3C7 | J/616/5884 | Cefnogi plant a phobl ifanc yn ystod gweithgareddau dysgu | 3 | 4 | 25 | | ✓ | ✓ | |
| | STL3C8 | L/616/5885 | Cefnogi sgiliau Saesneg a mathemateg | 3 | 4 | 25 | | ✓ | ✓ | |
| | STL3C9 | M/616/5958 | Cefnogi'r defnydd o TGCh yn yr amgylchedd dysgu | 3 | 3 | 15 | | ✓ | ✓ | |
| | STL3C10 | J/616/5965 | Cefnogi asesu ar gyfer dysgu | 3 | 3 | 15 | | ✓ | ✓ | |
| | STL3C11 | L/616/5966 | Cymryd rhan mewn datblygiad personol a phroffesiynol | 3 | 3 | 15 | | ✓ | ✓ | |
| | STL3D12 | D/616/5969 | Cefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu plant a phobl ifanc | 3 | 4 | 25 | | | ✓ | |
| ☆ | STL3D13 | Y/616/5971 | Deall sut i gefnogi dysgwyr dwyieithog | 3 | 3 | 15 | | | ✓ | |
| ☆ | STL3D14 | A/616/5977 | Deall sut i gefnogi dysgu plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau. | 3 | 4 | 25 | | | ✓ | |
| | STL3D15 | F/616/5978 | Cefnogi plant a phobl ifanc yn ystod trawsnewidiadau | 3 | 4 | 20 | | | ✓ | |
| ☆ | STL3D16 | J/616/5979 | Cefnogi rôl chwarae, hamdden a gweithgareddau allgyrsiol i blant a phobl ifanc | 3 | 3 | 15 | | | ✓ | |

Gall yr unedau uchod fod ar gael fel rhaglenni uned annibynnol. Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan.

## Dilyniant i astudiaethau lefel uwch

Nod y cymwysterau hyn yw rhoi nifer o opsiynau dilyniant i ddysgwyr, gan gynnwys astudiaethau lefel uwch mewn colegau addysg bellach neu brifysgol. Mae'r sgiliau sydd eu hangen i symud ymlaen i astudiaethau academaidd uwch yn wahanol i'r rhai sydd eu hangen ar Lefelau 1 a 2. Mae cymwysterau Lefel 3 yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau hyn. Er nad oes un diffiniad unigol o sgiliau dysgu lefel uwch, maent yn cynnwys:

- archwilio a phrofi gwybodaeth
- cefnogi pwyntiau gyda thystiolaeth
- astudio hunangyfeiriedig
- hunan-gymhelliant
- meddwl dros eich hun
- dadansoddi a chyfosod gwybodaeth/deunyddiau
- meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- cydweithio
- myfyrio ar ddysgu a nodi gwelliannau.

Gall meini prawf Lefel 3 ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr **ddadansoddi**, **dod i gasgliadau**, **dehongli** neu **gyfiawnhau**, sydd i gyd yn enghreifftiau o sgiliau lefel uwch. Mae hyn yn golygu y bydd y dystiolaeth a ddarperir ar gyfer y portffolio hefyd yn dangos datblygiad sgiliau dysgu lefel uwch a defnydd ohonynt.

Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch, cyfeiriwch at wefan NCFE.

## Sut y caiff y cymwysterau eu hasesu

Asesu yw'r broses o fesur sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwr yn erbyn y safonau a osodir mewn cymhwyster.

Caiff y cymwysterau hyn eu hasesu'n fewnol ac maent yn destun sicrhau ansawdd allanol.

Mae un elfen i'r asesiad, sef:

- portffolio o dystiolaeth a asesir yn fewnol sy'n cael ei asesu gan staff y ganolfan ac sy’n destun sicrhau ansawdd allanol gan NCFE.

Rhaid i ddysgwyr fod yn llwyddiannus yn y rhan hon er mwyn ennill y cymwysterau hyn.

Os na fydd dysgwyr yn llwyddiannus, gallant ailgyflwyno gwaith o fewn y cyfnod cofrestru; fodd bynnag, efallai bydd tâl am hyn.

Bydd yr holl dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu gan y dysgwr yn cael ei hasesu yn erbyn y safonau a ddisgwylir gan ddysgwr Lefel 3 ar gyfer pob canlyniad dysgu.

## Asesiad mewnol

Rydym wedi creu rhai tasgau asesu dewisol ar gyfer yr unedau sy'n cael eu hasesu'n fewnol. Gallwch osod y tasgau hyn yn eu cyd-destun i gyd-fynd ag anghenion eich dysgwyr i'w helpu i gasglu eu portffolio o dystiolaeth. Cynlluniwyd y tasgau i gwmpasu'r canlyniadau dysgu gwybodaeth a darparu cyfleoedd ar gyfer ymestyn a herio. I gael gwybod rhagor am osod y tasgau yn eu cyd-destun, cysylltwch â thîm y Cwricwlwm.

Rhaid i bob dysgwr greu portffolio o dystiolaeth wedi'i chynhyrchu o dasgau asesu priodol, sy'n dangos cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu sy'n gysylltiedig â phob uned. Ar ôl cwblhau pob uned, rhaid i ddysgwyr ddatgan mai eu gwaith hwy eu hunain yw'r gwaith a gynhyrchwyd a rhaid i'r Aseswr gydlofnodi hyn. Darperir enghreifftiau o dystiolaeth addas ar gyfer y portffolio ar gyfer pob uned yn Adran 2.

Dylai gwaith a asesir yn fewnol gael ei gwblhau gan y dysgwr yn unol â'r Fanyleb Cymhwyster. Dylid amserlennu nifer gynrychioliadol o oriau asesu i'r cynllun gwaith. Rhaid i oriau asesu mewnol gael eu gweinyddu y tu allan i oriau addysgu a dysgu a amserlennir a dylent gael eu goruchwylio a'u hasesu gan y Tiwtor. Gellir integreiddio gweithgareddau asesu trwy gydol y cwrs, er eu bod ar wahân i addysgu'r uned, ac nid oes rhaid iddynt ddigwydd yn uniongyrchol ar ddiwedd yr uned.

Rhaid cwblhau unrhyw waith a gyflwynir ar gyfer asesiad mewnol yn ystod oriau asesu a drefnwyd yn unol â'r cynllun gwaith, a rhaid ei ddilysu a'i briodoli i'r dysgwr. Rhaid i'r Tiwtor fod yn fodlon mai gwaith y dysgwr yw'r gwaith a gynhyrchir.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd y portffolio cyfan o dystiolaeth yn cael ei gwblhau yn y dosbarth arferol o fewn oriau asesu a drefnwyd sy'n cael eu cadw ar wahân i unrhyw oriau addysgu a dysgu.

Os yw canolfan yn dewis creu ei thasgau asesu mewnol ei hun, rhaid iddynt:

- fod yn hygyrch ac arwain at farnau asesu gwrthrychol
- caniatáu ac annog gweithgareddau dilys lle gellir barnu gwaith y dysgwr ei hun yn glir
- cyfeirio at Ddogfennau Ffeil Cwrs ar wefan NCFE.

### Goruchwylio dysgwyr a'ch rôl fel Aseswr

Gellir dod o hyd i ganllawiau ar sut i weinyddu'r asesiad mewnol a'r cymorth a roddwch i ddysgwyr ar wefan NCFE.

### Adborth i ddysgwyr

Gellir dod o hyd i ganllawiau ar ddarparu adborth yn ystod addysgu a dysgu a phob cam o'r asesiad ar wefan NCFE.

# Adran 2

## Cynnwys unedau a chanllawiau asesu

**Cynnwys unedau a chanllawiau asesu**

Mae'r adran hon yn rhoi manylion am strwythur a chynnwys y cymwysterau hyn.

Mae'r mathau o dystiolaeth a restrir at ddibenion arweiniad yn unig. O fewn portffolios dysgwyr, mae mathau eraill o dystiolaeth yn dderbyniol os ymdrinnir â'r holl ganlyniadau dysgu ac os oes modd sicrhau ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchwyd yn fewnol ac yn allanol. I gymeradwyo dulliau asesu mewnol ar wahân i adeiladu portffolio, cysylltwch â'n Tîm Sicrhau Ansawdd.

Mae'r esboniad o dermau'n esbonio sut mae'r termau a ddefnyddir yng nghynnwys yr uned yn cael eu cymhwyso i'r cymwysterau hyn. Mae'r ddogfen hon i'w gweld yn Adran 3.

I gael rhagor o wybodaeth neu arweiniad am y cymwysterau hyn, cysylltwch â'n tîm Cymorth i Gwsmeriaid.

## STL3C1: Ysgolion a cholegau fel sefydliadau (T/616/5878)

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r uned** | Nod yr uned hon yw paratoi'r dysgwr ar gyfer gweithio mewn amgylchedd dysgu. Mae'n cwmpasu gwybodaeth a dealltwriaeth o strwythur addysg; sut mae ysgolion a cholegau yn cael eu trefnu; ethos, cenhadaeth, nodau a gwerthoedd; fframweithiau polisi; a'r cyd-destun ehangach y mae ysgolion a cholegau yn gweithredu ynddo. |
| **Gwerth credyd** | 2 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad** | 10 |
| **Lefel** | 3 |
| **Gorfodol/dewisol** | Gorfodol ar gyfer Dyfarniad, Tystysgrif a Diploma |

| | |
|---|---|
| **Enw'r dysgwr:** | |
| **Rhif Canolfan:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 1. Deall strwythur addysg o'r blynyddoedd cynnar i addysg ôl-orfodol | 1.1 Crynhoi mathau o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar | | |
| | 1.2 Nodi cyfnodau allweddol y fframwaith statudol gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol: gweithdrefnau asesu a meincnodi mewn perthynas â gosod targedau gan athrawon, ar gyfer dysgu yng Nghenedl Gartref ei hunan | | |
| | 1.3 Egluro opsiynau ôl-16 ar gyfer pobl ifanc ac oedolion | | |
| 2. Deall sut mae ysgolion a cholegau wedi'u trefnu o ran rolau a chyfrifoldebau | 2.1 Esbonio'r rôl a ddelir gan:<br>• llywodraethwyr<br>• uwch dîm rheoli<br>• rolau statudol eraill, ee CADY<br>• athrawon/tiwtoriaid<br>• rolau staff cymorth | | |
| | 2.2 Nodi gweithwyr proffesiynol allanol a allai weithio mewn addysg | | |
| 3. Deall gwaith tîm mewn ysgolion a cholegau | 3.1 Rhestru nodweddion gwaith tîm effeithiol | | |
| | 3.2 Egluro rôl cyfathrebu wrth sefydlu perthnasoedd proffesiynol ar gyfer gwaith tîm effeithiol | | |
| 4. Deall ethos addysgol, cenhadaeth, nodau a gwerthoedd | 4.1 Nodi ethos, cenhadaeth, nodau a gwerthoedd lleoliad addysgol | | |
| | 4.2 Esbonio sut y gellir adlewyrchu ethos, cenhadaeth, nodau a gwerthoedd lleoliad addysgol mewn arferion gwaith | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 5. Deall pwrpas polisïau a gweithdrefnau mewn addysg | 5.1 Nodi'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd gan ysgolion a cholegau mewn perthynas â:<br>• staff<br>• lles disgyblion<br>• addysgu a dysgu<br>• cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant<br>• iechyd, diogelwch a diogeledd | | |
| | 5.2 Esbonio sut mae polisïau a gweithdrefnau yn cyfrannu at ansawdd mewn addysg | | |

**Datganiad dilysrwydd y dysgwr:**
Rwy'n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.

Llofnod y dysgwr: Dyddiad:

**Aseswr yn cymeradwyo'r uned a gwblhawyd:** STL3C1
Rwy'n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth a sgiliau ar gyfer yr uned hon.

Enw'r aseswr:

Llofnod: Dyddiad:

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi'n bersonol a diogel.

**STL3C1: Ysgolion a cholegau fel sefydliadau (T/616/5878) (parhad)**

| **Tasgau asesu STL3C1: Ysgolion a cholegau fel sefydliadau** |
|---|
| Mae'r tasgau hyn nad ydynt yn rhai gorfodol wedi’u datblygu i gyflawni'r canlyniadau dysgu gwybodaeth ar gyfer yr uned hon.<br><br>Mae **Tasg 1** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 1 (MPA 1.1, 1.2, 1.3) a chanlyniad dysgu 2 (MPA 2.1, 2.2)<br><br>Mae Pennaeth eich ysgol yn chwilio am wirfoddolwyr i gyflwyno sgwrs am sut beth yw gweithio ym myd addysg.<br>Rydych chi'n gwirfoddoli gyda 2 gydweithiwr arall ac rydych chi'n cytuno i gyflwyno fel tîm.<br>Penderfynir y byddwch yn cyflwyno’r adran agoriadol sy'n canolbwyntio ar strwythur addysg o'r blynyddoedd cynnar i addysg orfodol.<br><br>• Crëwch gyflwyniad sy'n:<br>  – crynhoi mathau o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar<br>  – egluro opsiynau ôl-16 ar gyfer pobl ifanc ac oedolion<br>  – nodi camau allweddol y fframwaith statudol gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol a gweithdrefnau ar gyfer asesu a meincnodi.<br><br>• I ategu eich cyflwyniad, crëwch adnodd i'w roi allan sy'n esbonio'r gwahanol rolau a gynhelir mewn amgylchedd dysgu. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys:<br>  – llywodraethwyr<br>  – uwch dimau rheoli<br>  – rolau statudol eraill, ee CADY<br>  – athrawon/tiwtoriaid<br>  – rolau staff cymorth.<br><br>Dylai'r adnodd hwn hefyd nodi gwahanol weithwyr proffesiynol allanol a allai weithio ym maes addysg.<br><br>Mae **Tasg 2** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 3 (MPA 3.1, 3,2)<br><br>Mae'r dasg hon yn ystyried pwysigrwydd gwaith tîm effeithiol a pherthnasoedd proffesiynol wrth weithio mewn amgylchedd dysgu. Gall canlyniadau gwaith tîm aneffeithiol a chyfathrebu gwael fod yn ddifrifol.<br><br>• Treuliwch ychydig o amser yn meddwl am y canlyniadau yn y senarios isod:<br>  – Senario 1: Mae Matthew, cynorthwyydd addysgu, wedi gadael y gwaith yn gynnar i fynd i’r deintydd ond wedi anghofio dweud wrth ei reolwr llinell.<br>  – Senario 2: Cafodd Chloe adael yr ysgol gyda'i chwaer heb ganiatâd ei rhieni.<br>  – Senario 3: Collodd Mila ei hapwyntiad gyda nyrs yr ysgol am nad yw ei mam yn deall Saesneg ac ni allai ddarllen y llythyr apwyntiad.<br>  – Senario 4: Aeth Ria adref ar y bws ysgol anghywir oherwydd bod y cwmni bysiau newydd yn aros mewn man gwahanol ar dir yr ysgol oherwydd iddynt gael hen daflen wybodaeth.<br><br>• Rhestrwch o leiaf dair (3) nodwedd gwaith tîm effeithiol ac eglurwch rôl cyfathrebu wrth sefydlu perthnasoedd proffesiynol ar gyfer gwaith tîm effeithiol. |

**STL3C1: Ysgolion a cholegau fel sefydliadau (T/616/5878) (parhad)**

| **Tasgau asesu STL3C1: Ysgolion a cholegau fel sefydliadau** |
|---|
| Mae **Tasg 3** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 4 (MPA 4.1, 4,2)<br><br>I gefnogi'r dasg hon, cyfeiriwch at ddatganiad ethos/cenhadaeth eich lleoliad eich hun neu leoliad addysgol arall.<br><br>• Nodwch ethos, cenhadaeth, nodau a gwerthoedd lleoliad addysgol.<br>• Esboniwch sut y gellir adlewyrchu ethos, cenhadaeth, nodau a gwerthoedd lleoliad addysgol mewn arferion gwaith.<br><br>Mae **Tasg 4** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 5 (MPA 5.1, 5,2)<br><br>• Gwnewch apwyntiad gyda'ch goruchwyliwr i drafod polisïau a gweithdrefnau eich lleoliad eich hun. Ystyriwch sut mae'r polisïau hyn yn diogelu, yn arwain ac yn cyfrannu at ansawdd yn yr amgylchedd dysgu.<br><br>• Gwnewch nodiadau o'r drafodaeth i ymgymryd â'r tasgau:<br>  – Nodwch bolisïau a gweithdrefnau sydd gan ysgolion a cholegau mewn perthynas â:<br>    ○ staff<br>    ○ lles disgyblion<br>    ○ addysgu a dysgu<br>    ○ cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant<br>    ○ iechyd, diogelwch a diogeledd.<br>  – Esboniwch sut mae polisïau a gweithdrefnau yn cyfrannu at ansawdd mewn addysg. |

## STL3C2: Cefnogi iechyd a diogelwch mewn amgylchedd dysgu (A/616/5879)

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i gefnogi iechyd a diogelwch plant a phobl ifanc yn yr amgylchedd dysgu.<br><br>**Pan fydd dysgwyr yn cymryd rhan mewn cyfleoedd lleoliad (yn ystod y Dystysgrif a'r Diploma) dylid eu hannog i ddilyn polisi a gweithdrefnau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach.** Bydd hyn yn cefnogi'r dysgwr, **wrth gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r uned hon.** |
| **Gwerth credyd** | 3 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad** | 20 |
| **Lefel** | 3 |
| **Gorfodol/dewisol** | Gorfodol ar gyfer Dyfarniad, Tystysgrif a Diploma |

| | |
|---|---|
| **Enw'r dysgwr:** | |
| **Rhif Canolfan:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 1. Deall sut i gynllunio a darparu amgylcheddau sy'n cefnogi iechyd a diogelwch plant a phobl ifanc. | 1.1 Nodi deddfwriaeth mewn perthynas ag iechyd a diogelwch mewn amgylchedd dysgu. | | |
| | 1.2 Disgrifio'r ffactorau y dylid eu hystyried wrth gynllunio amgylcheddau iach a diogel dan do ac yn yr awyr agored. | | |
| | 1.3 Esbonio sut mae iechyd a diogelwch yn cael ei fonitro a'i gynnal yn yr amgylchedd dysgu | | |
| 2. Deall sut i adnabod a rheoli risgiau i iechyd, diogelwch a diogeledd mewn amgylchedd dysgu neu yn ystod ymweliadau oddi ar y safle | 2.1 Rhoi enghreifftiau o risgiau a pheryglon posibl mewn amgylchedd dysgu | | |
| 3. Deall sut i gefnogi plant a phobl ifanc i asesu a rheoli risg eu hunain | 3.1 Esbonio pam ei bod yn bwysig defnyddio dull cytbwys o reoli risg. | | |
| | 3.2 Esbonio'r problemau rhwng hawliau a dewisiadau plant a phobl ifanc. a gofynion iechyd a diogelwch. | | |
| | 3.3 Rhoi enghreifftiau o ffyrdd o gefnogi plant a phobl ifanc i asesu a rheoli risg mewn amgylchedd dysgu | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 4. Deall ymatebion priodol i ddamweiniau, digwyddiadau, achosion brys a salwch yn yr amgylchedd dysgu ac ar ymweliadau oddi ar y safle. | 4.1 Esbonio polisïau a gweithdrefnau'r amgylchedd dysgu mewn ymateb i **ddamweiniau, digwyddiadau, achosion brys a salwch.** | | |
| | 4.2 Esbonio'r gweithdrefnau cywir ar gyfer cofnodi a rhoi gwybod am ddamweiniau, digwyddiadau, anafiadau, arwyddion o salwch ac achosion brys eraill. | | |
| 5. Deall eu rôl eu hunain wrth gynorthwyo i weinyddu meddyginiaeth | 5.1 Amlinellu'r polisïau a'r gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer rheoli gweinyddu meddyginiaeth | | |
| | 5.2 Disgrifio cyfrifoldebau ac atebolrwydd eu hunain mewn perthynas â gweinyddu meddyginiaeth | | |

**Canllawiau asesu**

**Cyflwyno ac asesu**

**4.1 Damweiniau, digwyddiadau, achosion brys a salwch e.e.:**
- damweiniau yn ymwneud â phlant, pobl ifanc neu oedolion; digwyddiad cymorth cyntaf
- gallai digwyddiadau gynnwys: bygythiad bom, gwacáu oddi ar y safle, dieithryn ar y safle, digwyddiad ag arf, tywydd eithafol
- argyfyngau fel tân, plant neu bobl ifanc ar goll, adwaith alergaidd sy'n peryglu bywyd, gwacáu, torri diogelwch
- gallai salwch gynnwys arwyddion o salwch fel twymyn, brech neu anymwybyddiaeth, a chymryd camau priodol.
- 

**Datganiad dilysrwydd y dysgwr:**
Rwy'n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.

Llofnod y dysgwr: Dyddiad:

**Aseswr yn cymeradwyo'r uned a gwblhawyd:** STL3C2
Rwy'n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth a sgiliau ar gyfer yr uned hon.

Enw'r aseswr:

Llofnod: Dyddiad:

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi'n bersonol a diogel.

**STL3C2: Cefnogi iechyd a diogelwch mewn amgylchedd dysgu (A/616/5879) (parhad)**

**Tasgau asesu STL3C2: Cefnogi iechyd a diogelwch mewn amgylchedd dysgu**

Mae'r tasgau hyn nad ydynt yn rhai gorfodol wedi'u datblygu i gyflawni'r canlyniadau dysgu gwybodaeth ar gyfer yr uned hon.

Mae **Tasg 1** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 1 (MPA 1.1)

- Cynhyrchwch daflen ffeithiau sy'n amlinellu deddfwriaeth mewn perthynas ag iechyd a diogelwch mewn amgylcheddau dysgu.

Mae **Tasg 2** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 1 (MPA 1.1, 1.2, 1.3) a chanlyniad dysgu 2 (MPA 2.1)

- Dechreuwch y dasg hon drwy roi enghreifftiau o risgiau a pheryglon posibl y gellid eu canfod mewn amgylchedd dysgu. Rhaid i'r enghreifftiau gynnwys risgiau i iechyd, diogelwch a diogeledd, mewn amgylchedd dysgu neu yn ystod ymweliadau oddi ar y safle.
- Disgrifiwch o leiaf pedwar (4) ffactor i'w hystyried wrth gynllunio amgylcheddau iach a diogel dan do ac yn yr awyr agored ac eglurwch sut mae iechyd a diogelwch yn cael ei fonitro a'i gynnal yn yr amgylchedd dysgu.

Mae **Tasg 3** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 3 (MPA 3.1, 3,2, 3.3)

**Darllenwch y senarios canlynol cyn rhoi cynnig ar y dasg.**

<u>Senario 1</u>
Mae Marcus ar leoliad yn eich ysgol tra'n astudio ar gyfer ei gymhwyster lefel 2. Pan gyrhaeddodd yr ysgol y bore 'ma, sylwodd fod y ffrâm ddringo tu allan yn wlyb a llithrig iawn. Mae Marcus yn sylweddoli ar unwaith bod hyn yn berygl posibl. Fodd bynnag, mae rhagolygon y tywydd yn darogan diwrnod heulog er gwaethaf dechrau gwlyb i'r bore.

Pa gamau y dylai Marcus eu cymryd? A ddylai adrodd am y perygl nawr neu dybio y bydd yn sych erbyn amser chwarae?

<u>Senario 2</u>
Rydych chi'n mentora Myra, cynorthwyydd addysgu newydd sy'n cefnogi yn nosbarth blwyddyn 6 gyda chi heddiw. Mae'r plant yn defnyddio chwyddwydrau ar gyfer eu prosiectau grŵp. Mae'n ddiwrnod poeth a chlos iawn ac mae'r plant yng ngrŵp Myra eisiau ymgymryd â'u prosiect y tu allan. Mae Myra yn dod atoch chi am gyngor.

Ystyriwch eich ymateb.
Sut allech chi gydbwyso dewisiadau'r plant â gofynion iechyd neu ddiogelwch?
Pa risgiau neu beryglon allai fod?

- Esboniwch pam ei bod yn bwysig defnyddio dull cytbwys o reoli risg.
- Esboniwch y problemau rhwng sicrhau hawliau a dewisiadau plant a phobl ifanc a gofynion iechyd a diogelwch.

**STL3C2: Cefnogi iechyd a diogelwch mewn amgylchedd dysgu (A/616/5879) (parhad)**

**Tasgau asesu STL3C2: Cefnogi iechyd a diogelwch mewn amgylchedd dysgu**

- Cwblhewch y tabl canlynol i roi enghreifftiau o ffyrdd o gefnogi plant a phobl ifanc i asesu a rheoli risg mewn amgylchedd dysgu. Sicrhewch bod ystodau oedran gwahanol ac amgylcheddau dysgu gwahanol yn cael sylw.

Ystyriwch rannu'r adnodd hwn gyda chydweithwyr yn eich lleoliad eich hunain.

| Sefyllfa | Sut i gefnogi plant a phobl ifanc i asesu a rheoli risg eu hunain |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

Mae **Tasg 4** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 4 (MPA 4.1, 4.2) a chanlyniad dysgu 5 (MPA 5.1, 5.2)

- Cynhyrchwch becyn adnoddau ar gyfer aelodau newydd o'r tîm cymorth i'w helpu i ddeall sut i ymateb i ddamweiniau, digwyddiadau, argyfyngau ac arwyddion o salwch yn yr amgylchedd dysgu. Sicrhewch fod y wybodaeth yn cynnwys esboniad o bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymateb i bob un o'r canlynol.
- Yn ogystal, esboniwch y gweithdrefnau cywir ar gyfer cofnodi a rhoi gwybod am:
  - ddamweiniau
  - digwyddiadau
  - achosion brys
  - salwch
  - yn yr amgylchedd dysgu ac ymweliadau oddi ar y safle
  - rheoli gweinyddiaeth meddyginiaeth, gan gynnwys disgrifiad o'ch cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd eich hun mewn perthynas â gweinyddu meddyginiaeth.

## STL3C3 Deall sut i ddiogelu plant a phobl ifanc (M/616/5880)

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i gefnogi diogelu plant a phobl ifanc. |
| **Gwerth credyd** | 4 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad** | 25 |
| **Lefel** | 3 |
| **Gorfodol/dewisol** | Gorfodol ar gyfer Dyfarniad, Tystysgrif a Diploma |

| | |
|---|---|
| **Enw'r dysgwr:** | |
| **Rhif Canolfan:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 1. Deall deddfwriaeth, canllawiau, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc | 1.1 Amlinellu deddfwriaeth, canllawiau, polisïau a gweithdrefnau cyfredol yn y Genedl Gartref sy'n effeithio ar ddiogelu plant a phobl ifanc. | | |
| 2. Deall sut i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i ddiogelu plant a phobl ifanc | 2.1 Esbonio'r angen i ddiogelu plant a phobl ifanc | | |
| | 2.2. Esbonio effaith dull sy'n canolbwyntio ar blentyn neu berson ifanc | | |
| | 2.3 Esbonio ystyr gweithio mewn partneriaeth yng nghyd-destun diogelu | | |
| | 2.4 Disgrifio rolau a chyfrifoldebau'r sefydliadau gwahanol a all fod yn rhan o'r broses pan fydd plentyn neu berson ifanc wedi cael ei gam-drin neu ei niweidio | | |
| 3. Deall yr angen i sicrhau diogelwch plant a phobl ifanc yn yr amgylchedd dysgu | 3.1 Esbonio pam mae angen i ni sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag niwed o fewn yr amgylchedd dysgu | | |
| | 3.2 Nodi'r risgiau a'r canlyniadau posibl o fod ar-lein a defnyddio **dyfeisiau symudol digidol** i blant a phobl ifanc. | | |
| | 3.3. Disgrifio ffyrdd o leihau'r risg y mae plant yn ei hwynebu drwy:<br>• rhwydweithio cymdeithasol<br>• defnyddio'r rhyngrwyd | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| | 3.4 Esbonio sut y gall staff cymorth gymryd camau i ddiogelu eu hunain o fewn eu harferion bob dydd yn yr amgylchedd dysgu ac yn ystod gweithgareddau oddi ar y safle | | |
| 4. Deall sut i ymateb i dystiolaeth neu bryderon bod plentyn neu berson ifanc wedi cael ei gam-drin neu ei niweidio | 4.1 Esbonio amddiffyn plant o fewn cyd-destun ehangach diogelu plant a phobl ifanc | | |
| | 4.2 Nodi gwahanol fathau o gam-drin a bwlio | | |
| | 4.3 Amlinellu'r arwyddion, symptomau, dangosyddion ac ymddygiadau posibl a all achosi pryder o fewn cyd-destun diogelu | | |
| | 4.4. Disgrifio'r camau i'w cymryd os bydd plentyn neu berson ifanc yn honni iddo gael ei gam-drin neu ei niweidio, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eu lleoliad eu hunain | | |
| | 4.5 Esbonio hawliau plant, pobl ifanc a'u gofalwyr mewn sefyllfaoedd pan fydd achos honedig neu achos a amheuir o niwed neu gam-drin | | |
| | 4.6 Esbonio sut mae adolygiadau achosion difrifol yn llywio ymarfer | | |
| 5. Deall sut i weithio gyda phlant a phobl ifanc i gefnogi eu llesiant | 5.1 Disgrifio ffyrdd y gall staff cymorth weithio gyda phlant a phobl ifanc i feithrin hunanhyder a hunan-barch | | |
| | 5.2 Disgrifio rôl staff cymorth wrth adnabod arwyddion pryderon iechyd meddwl ymhlith plant a phobl ifanc | | |
| | 5.3 Adnabod arwyddion pryderon iechyd meddwl posibl mewn plant a phobl ifanc | | |
| | 5.4 Esbonio'r angen i weithio gyda phlant a phobl ifanc i'w galluogi i ddatblygu gwytnwch emosiynol a llesiant meddyliol | | |

**STL3C3 Deall sut i ddiogelu plant a phobl ifanc (M/616/5880) (parhad)**

**Canllawiau asesu**

| **Cyflwyno ac asesu** |
|---|
| 3.2 **Dyfeisiau symudol digidol** e.e.:<br>• ffôn clyfar<br>• tabled<br>• dyfeisiau eraill. |

**Datganiad dilysrwydd y dysgwr:**
Rwy’n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy’n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.

Llofnod y dysgwr: Dyddiad:

**Aseswr yn cymeradwyo’r uned a gwblhawyd:** STL3C3
Rwy’n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth a sgiliau ar gyfer yr uned hon.

Enw’r aseswr:

Llofnod: Dyddiad:

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi’n bersonol a diogel.

**STL3C3 Deall sut i ddiogelu plant a phobl ifanc (M/616/5880) (parhad)**

| **Tasgau asesu STL3C3: Deall sut i ddiogelu plant a phobl ifanc** |
|---|
| Mae'r tasgau hyn nad ydynt yn rhai gorfodol wedi'u datblygu i gyflawni'r canlyniadau dysgu gwybodaeth ar gyfer yr uned hon.<br><br>Mae **Tasg 1** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 1 (MPA 1.1)<br><br>• Cynhyrchwch daflen ffeithiau i'w chynnwys yn y llawlyfr staff sy'n amlinellu:<br>  – deddfwriaeth, canllawiau, polisïau a gweithdrefnau cyfredol yn y Genedl Gartref sy'n effeithio ar ddiogelu plant a phobl ifanc.<br><br>Mae **Tasg 2** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 2 (MPA 2.1, 2,2, 2.3, 2.4)<br><br>Mae deall sut i weithio mewn partneriaeth ag eraill i ddiogelu plant a phobl ifanc yn hanfodol wrth weithio mewn amgylchedd dysgu. Mae hefyd yn bwysig cael dealltwriaeth o wahanol sefydliadau a allai fod yn rhan o'r broses pan fydd plentyn neu berson ifanc wedi cael ei gam-drin neu ei niweidio.<br><br>Fel rhan o'ch sesiwn sefydlu fel aelod newydd o staff, mae gennych sesiwn wedi'i threfnu gyda'ch rheolwr llinell lle gofynnwyd i chi ddarparu gwybodaeth a fydd yn dangos y gallwch:<br>• esbonio'r angen i ddiogelu plant a phobl ifanc<br>• esbonio effaith dull sy'n canolbwyntio ar blentyn neu berson ifanc<br>• esbonio ystyr gweithio mewn partneriaeth yng nghyd-destun diogelu<br>• disgrifio rolau a chyfrifoldebau'r sefydliadau gwahanol a all fod yn rhan o'r broses pan fydd plentyn neu berson ifanc wedi cael ei gam-drin neu ei niweidio<br><br>Mae **Tasg 3** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 3 (MPA 3.1, 3.2, 3.3, 3.4)<br><br>Mae eich ysgol/coleg yn cymryd rhan yn y 'Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel' eto eleni gyda gweithdai, pecynnau gwybodaeth, hysbysfyrddau a gweithgareddau yn cael eu trefnu ar gyfer plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr a staff ysgol.<br><br>• Cynlluniwch gyflwyniad i athrawon ei ddefnyddio gyda gwahanol gynulleidfaoedd sydd yn:<br>  – esbonio pam mae angen i ni sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag niwed o fewn yr amgylchedd dysgu<br>  – nodi'r risgiau a'r canlyniadau posibl o fod ar-lein a defnyddio dyfeisiau symudol digidol i blant a phobl ifanc<br>  – disgrifio dwy ffordd (2) o leihau risg i blant a phobl ifanc o rwydweithio cymdeithasol a defnyddio'r rhyngrwyd.<br>• Datblygwch daflen i'w defnyddio gyda'ch cyflwyniad sy'n esbonio sut y gall staff cymorth gymryd camau i ddiogelu eu hunain o fewn eu harferion bob dydd mewn amgylchedd dysgu ac yn ystod gweithgareddau oddi ar y safle. |

**STL3C3 Deall sut i ddiogelu plant a phobl ifanc (M/616/5880) (parhad)**

| Tasgau asesu STL3C3: Deall sut i ddiogelu plant a phobl ifanc |
|---|
| Mae **Tasg 4** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 4 (MPA 4.1, 4.2, 4.3, 4.4, 4.5,)<br><br>**Darllenwch y senario hwn cyn dechrau'r dasg.**<br><br>Mae'r senario yn cyflwyno materion diogelu a lles.<br><br>Mae Jordan yn bump oed ac yn mynychu'r ysgol gynradd leol. Mae Jordan yn byw gartref gyda'i Dad a'i ddau frawd hŷn. Er nad yw Jordan erioed wedi bod yn brydlon ac yn aml yn cael ei gasglu'n hwyr ar ddiwedd y diwrnod ysgol, nid yw presenoldeb wedi bod yn destun pryder.<br>Fodd bynnag, dros yr wythnosau diwethaf, mae Jordan wedi bod yn aros wrth fynedfa'r ysgol yn gynnar iawn yn y bore ac mae'n cael ei gasglu gan rieni eraill neu ei frawd hŷn ar ddiwedd y diwrnod ysgol, gyda chaniatâd tad Jordan.<br>Yn ogystal â'r newid hwn i batrwm presenoldeb Jordan, mae staff wedi sylwi ar newidiadau yn ymddangosiad ac ymddygiad Jordan. Mae Jordan, fel arfer yn blentyn tawel a oedd yn ymdopi â thrawsnewidiadau yn dda, bellach yn aml yn dangos ymddygiad heriol, ac mae’n anodd ei gysuro’n aml wrth iddo gyrraedd y dosbarth. Yn aml, mae Jordan yn edrych fel pe na bai wedi ymolchi, mae’n gwisgo'r un dillad drwy'r wythnos ac yn aml heb ei becyn bwyd.<br>Fel cynorthwyydd dysgu, rydych chi'n poeni am Jordan.<br>Nid yw'r athro dosbarth yn poeni'n ormodol ac mae wedi dweud wrthych ‘bydd popeth yn iawn, peidiwch â gadael iddo eich poeni.’ Rydych chi'n poeni bod Jordan angen ymyrraeth.<br><br>• Esboniwch amddiffyn plant o fewn cyd-destun ehangach diogelu plant a phobl ifanc.<br>• Nodwch wahanol fathau o gam-drin a bwlio.<br>• Amlinellwch arwyddion, symptomau, dangosyddion ac ymddygiadau posibl a all achosi pryder o fewn cyd-destun diogelu.<br>• Disgrifiwch y camau i’w cymryd os bydd plentyn neu berson ifanc yn honni iddo gael ei gam-drin neu ei niweidio, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich lleoliad eich hun.<br>• Esboniwch hawliau plant, pobl ifanc a'u gofalwyr mewn sefyllfaoedd pan fydd achos honedig neu achos a amheuir o niwed neu gam-drin.<br><br>Mae **Tasg 5** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 4 (MPA 4.6)<br><br>Mae'n wythnos datblygu staff yn eich ysgol uwchradd ac mae disgwyl i'r holl staff gyflwyno sesiwn fer i gydweithwyr ar bwnc sy'n ymwneud â diogelu plant a phobl ifanc. Bydd hyn yn cyfrannu at DPP yr holl staff a bydd yn cael ei gynnwys ar gofnodion datblygiad proffesiynol.<br><br>• Gwnewch ychydig o ymchwil a pharatowch i egluro sut mae adolygiadau achos difrifol yn llywio ymarfer. |

**STL3C3 Deall sut i ddiogelu plant a phobl ifanc (M/616/5880) (parhad)**

| Tasgau asesu STL3C3: Deall sut i ddiogelu plant a phobl ifanc |
|---|
| Mae **Tasg 6** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 5 (MPA 5.1, 5.2, 5.3, 5.4)<br><br>**Darllenwch y senario cyn rhoi cynnig ar y dasg.**<br><br>Rydych chi'n aelod o'r tîm cymorth mewn coleg cymunedol mawr ac yn eich amser hamdden rydych chi'n gwneud gwaith gwirfoddol i elusen leol sy'n cefnogi iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol mewn pobl ifanc.<br>Yn ddiweddar, rydych chi wedi dechrau pryderu am y cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc ag iechyd meddwl gwael ac wedi tynnu sylw uwch staff at hyn.<br>Mae'r coleg bellach wedi cynllunio wythnos ymwybyddiaeth iechyd meddwl i gyd-fynd ag ymgyrch genedlaethol ac mae'r radio lleol wedi gofyn i chi recordio cyfweliad am gefnogi llesiant plant a phobl ifanc.<br><br>• Datblygwch sgript ar gyfer y darllediad radio sydd yn:<br>  – nodi arwyddion pryderon iechyd meddwl posibl mewn plant a phobl ifanc<br>  – disgrifio rôl staff cymorth wrth adnabod arwyddion pryderon iechyd meddwl ymhlith plant a phobl ifanc<br>  – disgrifio ffyrdd y gall staff cymorth weithio gyda phlant a phobl ifanc i feithrin hunanhyder a hunan-barch<br>  – esbonio'r angen i weithio gyda phlant a phobl ifanc i'w galluogi i ddatblygu gwytnwch emosiynol a llesiant meddyliol. |

## STL3C4: Datblygu perthnasoedd proffesiynol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion (T/616/5881)

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n sail i gyfathrebu effeithiol a pherthnasoedd proffesiynol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion. Mae'n ymdrin â'r cymhwysedd sy'n ofynnol i ddatblygu perthnasoedd proffesiynol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion. |
| **Gwerth credyd** | 2 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad** | 15 |
| **Lefel** | 3 |
| **Gorfodol/dewisol** | Gorfodol ar gyfer Tystysgrif a Diploma |

| | |
|---|---|
| **Enw'r dysgwr:** | |
| **Rhif Canolfan:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 1. Deall egwyddorion datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion | 1.1 Esbonio pam mae cyfathrebu effeithiol yn fuddiol wrth ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol â phlant, pobl ifanc ac oedolion | | |
| | 1.2 Esbonio sut y gall gwahanol gefndiroedd cymdeithasol, proffesiynol a diwylliannol effeithio ar berthnasoedd a'r ffordd y mae pobl yn cyfathrebu | | |
| | 1.3 Disgrifio ffyrdd y gall yr ymarferydd feithrin a chynnal perthynas broffesiynol â phlant, pobl ifanc ac oedolion | | |
| | 1.4 Esbonio sut y gellir goresgyn rhwystrau i berthnasoedd proffesiynol | | |
| 2. Deall deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth, gan gynnwys diogelu data | 2.1 Crynhoi prif bwyntiau deddfwriaeth a gweithdrefnau sy'n ymwneud â chyfrinachedd, diogelu data a datgelu gwybodaeth | | |
| | 2.2 Esbonio'r angen i dawelu meddwl plant, pobl ifanc ac oedolion ynghylch cyfrinachedd gwybodaeth a rennir a therfynau hyn | | |
| | 2.3 Trafod sefyllfaoedd pan fydd yn rhaid torri protocolau cyfrinachedd | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 3. Gallu datblygu perthnasoedd proffesiynol gyda phlant a phobl ifanc | 3.1 Dangos sut i sefydlu cydberthynas a pherthnasoedd parchus, ymddiriedus gyda phlant a phobl ifanc | | |
| | 3.2 Dangos sut i gefnogi plant a phobl ifanc i wneud dewisiadau drostynt eu hunain | | |
| | 3.3 Rhoi sylw i blant a phobl ifanc unigol mewn ffordd sy'n deg iddyn nhw a'r grŵp cyfan | | |
| 4. Gallu cyfathrebu gyda phlant a phobl ifanc | 4.1 Defnyddio gwahanol fathau o gyfathrebu i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc | | |
| | 4.2 Dangos sut i addasu cyfathrebu gyda phlant a phobl ifanc ar gyfer:<br>• oedran a cham datblygiad y plentyn neu'r person ifanc<br>• cyd-destun y cyfathrebu<br>• gwahaniaethau cyfathrebu | | |
| | 4.3 Esbonio defnydd dysgwyr o iaith y cartref ac acenion a thafodieithoedd lleol mewn modd sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol ac yn atgyfnerthu hunan-ddelweddau cadarnhaol | | |
| 5. Gallu datblygu perthynas broffesiynol gydag oedolion | 5.1 Dangos sut i sefydlu cydberthynas a pherthnasoedd proffesiynol ag oedolion gan ddefnyddio technegau i hyrwyddo cyd-ymddiriedaeth a dealltwriaeth | | |
| | 5.2 Dangos sut i addasu cyfathrebu gydag oedolion ar gyfer:<br>• gwahaniaethau diwylliannol a chymdeithasol<br>• cyd-destun y cyfathrebu<br>• gwahaniaethau cyfathrebu | | |
| 6. Gallu cefnogi plant a phobl ifanc wrth iddynt ddatblygu perthnasoedd | 6.1 Defnyddio ffyrdd o helpu plant a phobl ifanc i ddeall gwerth perthnasoedd cadarnhaol ag eraill | | |
| | 6.2 Dangos sut i fod yn fodel rôl effeithiol yn eu perthnasoedd â phlant a phobl ifanc | | |
| | 6.3 Dangos ffyrdd o annog a chefnogi plant a phobl ifanc i:<br>• ddeall a pharchu unigoliaeth pobl eraill | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| | • delio â gwrthdaro drostynt eu hunain<br>• parchu teimladau a safbwyntiau pobl eraill | | |
| 7. Gallu cefnogi cynhwysiant ac arferion cynhwysol mewn gwaith gyda phlant a phobl ifanc | 7.1 Esbonio'r hyn a olygir gan gynhwysiant ac arfer cynhwysol | | |
| | 7.2 Nodi rhwystrau i gyfranogiad plant a phobl ifanc | | |
| | 7.3 Dangos ffyrdd o gefnogi cynhwysiant ac arferion cynhwysol mewn gwaith gyda phlant a phobl ifanc | | |

**Datganiad dilysrwydd y dysgwr:**
Rwy'n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.

Llofnod y dysgwr: Dyddiad:

**Aseswr yn cymeradwyo'r uned a gwblhawyd:** STL3C4
Rwy'n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth a sgiliau ar gyfer yr uned hon.

Enw'r aseswr:

Llofnod: Dyddiad:

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi'n bersonol a diogel.

**STL3C4: Datblygu perthnasoedd proffesiynol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion (T/616/5881) (parhad)**

| **Tasgau asesu STL3C4: Datblygu perthnasoedd proffesiynol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion** |
|---|
| Mae'r tasgau hyn nad ydynt yn rhai gorfodol wedi’u datblygu i gyflawni'r canlyniadau dysgu gwybodaeth ar gyfer yr uned hon.<br><br>Mae **Tasg 1** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 1 (MPA 1.1, 1.2, 1.3, 1.4) a chanlyniad dysgu 2 (MPA 2.3)<br><br>Mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill a datblygu perthnasoedd cadarnhaol effeithiol yn bwysig wrth weithio mewn amgylchedd dysgu.<br><br>• Cynhaliwch gyfweliadau gyda detholiad o staff yn eich lleoliad i archwilio perthnasoedd cadarnhaol. Meddyliwch yn ofalus am y cwestiynau y byddwch yn eu gofyn.<br>• Ysgrifennwch adroddiad o ganlyniadau'r cyfweliadau i:<br>  – esbonio pam mae cyfathrebu effeithiol yn fuddiol wrth ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol â phlant, pobl ifanc ac oedolion<br>  – esbonio sut y gall gwahanol gefndiroedd cymdeithasol, proffesiynol a diwylliannol effeithio ar berthnasoedd a'r ffordd y mae pobl yn cyfathrebu<br>  – disgrifio o leiaf tair (3) ffordd y gall y gweithiwr cymorth adeiladu a chynnal perthynas broffesiynol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion<br>  – gan ddefnyddio dau (2) rwystr i berthnasoedd proffesiynol fel enghreifftiau, esboniwch sut y gellir goresgyn pob rhwystr<br>• Ysgrifennwch gasgliad ar gyfer eich adroddiad sy'n:<br>  – trafod sefyllfaoedd pan fydd yn rhaid torri protocolau cyfrinachedd<br><br>Mae **Tasg 2** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 2 (MPA 2.1, 2.2)<br><br>• Crëwch adnodd i staff newydd ei ddefnyddio yn ystod eu cyfnod sefydlu. Rhaid i'r adnodd hwn:<br>  – grynhoi prif bwyntiau deddfwriaeth a gweithdrefnau sy'n ymwneud â chyfrinachedd, diogelu data a datgelu gwybodaeth<br>  – esbonio'r angen i dawelu meddwl plant, pobl ifanc ac oedolion ynghylch cyfrinachedd gwybodaeth a rennir a therfynau hyn |

## STL3C5: Deall sut mae plant a phobl ifanc yn datblygu (A/616/5882)

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r uned** | Mae'r uned hon yn darparu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r modd y mae plant a phobl ifanc, o'u genedigaeth hyd at eu pen-blwydd yn 19 oed, yn datblygu, gan gynnwys safbwyntiau damcaniaethol sylfaenol. Mae hefyd yn cynnwys camau gweithredu a gymerir pan nodir gwahaniaethau mewn datblygiad. |
| **Gwerth credyd** | 3 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad** | 25 |
| **Lefel** | 3 |
| **Gorfodol/dewisol** | Gorfodol ar gyfer Dyfarniad, Tystysgrif a Diploma |

| | |
|---|---|
| **Enw'r dysgwr:** | |
| **Rhif Canolfan:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 1. Deall patrwm disgwyliedig datblygiad plant a phobl ifanc o'u genedigaeth hyd at 19 oed | 1.1 Disgrifio cerrig milltir yn natblygiad cyfannol plant o'u genedigaeth hyd at 19 oed | | |
| 2. Deall y ffactorau sy'n effeithio ar ddatblygiad plant a phobl ifanc a sut mae'r rhain yn effeithio ar ymarfer | 2.1 Esbonio sut mae ystod o **ffactorau biolegol** yn dylanwadu ar ddatblygiad plant a phobl ifanc | | |
| | 2.2 Esbonio sut mae ystod o **ffactorau allanol** yn dylanwadu ar ddatblygiad plant a phobl ifanc | | |
| | 2.3 Esbonio sut mae **damcaniaethau am ddatblygiad** a fframweithiau addysgol yn dylanwadu ar ymarfer cyfredol | | |
| 3. Deall sut i fonitro datblygiad plant a phobl ifanc a'r ymyriadau y dylid eu gweithredu os nad yw'r broses yn dilyn y patrwm disgwyliedig | 3.1 Esbonio sut i fonitro datblygiad plant a phobl ifanc gan ddefnyddio dulliau gwahanol | | |
| | 3.2 Nodi sut y gall **gweithwyr proffesiynol eraill** a mathau gwahanol o ymyriadau hybu canlyniadau positif i blant a phobl ifanc, lle nad yw'r datblygiad yn dilyn y patrwm disgwyliedig | | |

## STL3C5: Deall sut mae plant a phobl ifanc yn datblygu (A/616/5882) (parhad)

### Canllawiau asesu

| Cyflwyno ac asesu |
|---|
| 2.1 **Ffactorau biolegol** e.e.:<br>• cyflyrau iechyd neu anabledd<br>• cyflyrau cynhenid h.y. yn bresennol adeg genedigaeth.<br><br>2.2 **Ffactorau allanol** e.e.:<br>• tlodi ac amddifadedd<br>• amgylchedd teuluol, fel<br>  – tai<br>  – gorlenwi<br>  – statws ffoadur neu newydd gyrraedd<br>  – trais domestig<br>  – camddefnyddio alcohol/sylweddau<br>  – gofalwr ifanc<br>  – ysgariad<br>  – profedigaeth.<br>• diwylliant a chrefydd<br>• amgylchedd addysg, fel:<br>  – gwahardd<br>  – ysgol mewn mesurau arbennig<br>• bwlio<br>• plant sy'n derbyn gofal/statws gofal<br>• trasnewidiad fel glasoed<br>• Saesneg fel ail iaith.<br><br>**2.3 Damcaniaethau am ddatblygiad:**<br>• gwybyddol (e.e. Piaget)<br>• dadansoddiad seicdreiddiol (e.e. Freud)<br>• dyneiddiol (e.e. Maslow)<br>• dysgu cymdeithasol (e.e. Bandura)<br>• cyflyru gweithredol (e.e. Skinner)<br>• ymddygiadol (e.e. Watson).<br><br>3.2 Gallai **gweithwyr proffesiynol eraill** gynnwys:<br>• gweithiwr cymdeithasol<br>• therapydd lleferydd ac iaith<br>• seicolegydd<br>• seiciatrydd<br>• cyfiawnder ieuenctid<br>• ffisiotherapydd<br>• nyrs arbenigol<br>• cymorth dysgu ychwanegol<br>• ymwelydd iechyd. |

**STL3C5: Deall sut mae plant a phobl ifanc yn datblygu (A/616/5882) (parhad)**

| |
|---|
| **Datganiad dilysrwydd y dysgwr:**<br>Rwy’n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy’n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.<br><br>Llofnod y dysgwr: Dyddiad: |

| |
|---|
| **Aseswr yn cymeradwyo’r uned a gwblhawyd:** STL3C5<br>Rwy’n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth a sgiliau ar gyfer yr uned hon.<br><br>Enw’r aseswr:<br><br>Llofnod: Dyddiad: |

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi’n bersonol a diogel.

**STL3C5: Deall sut mae plant a phobl ifanc yn datblygu (A/616/5882) (parhad)**

| Tasgau asesu STL3C5: Deall sut mae plant a phobl ifanc yn datblygu |
|---|
| Mae'r dasg hon nad yw'n orfodol wedi'i datblygu i gyflawni'r canlyniadau dysgu gwybodaeth ar gyfer yr uned hon.<br><br>Mae **Tasg 1** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 1 (MPA 1.1), canlyniad dysgu 2 (MPA 2.1, 2.2, 2.3) a chanlyniad dysgu 3 (MPA 3.1, 3.2)<br><br>**Darllenwch y senario cyn rhoi cynnig ar y dasg.**<br><br>Mae'r ysgol yn cynllunio cyfres o weithdai datblygu proffesiynol i gefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth rhieni/gofalwyr a gwirfoddolwyr o ddatblygiad plant.<br><br>Bydd y gweithdy cyntaf yn canolbwyntio ar gerrig milltir datblygiad cyfannol.<br>• Cynhyrchwch siart neu daflen sy'n disgrifio datblygiad cyfannol plant o'u genedigaeth hyd at 19 oed. Dylech sicrhau bod datblygiad corfforol, gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol yn cael eu cynnwys.<br><br>Bydd yr ail weithdy yn archwilio gwahanol ffactorau a all ddylanwadu ar ddatblygiad plant a phobl ifanc.<br>• Ar gyfer y gweithdy, paratowch gyflwyniad sy'n esbonio sut mae amrywiaeth o ffactorau biolegol a ffactorau allanol yn dylanwadu ar ddatblygiad plant a phobl ifanc, gan roi o leiaf dwy (2) enghraifft o bob un.<br><br>Bydd y trydydd gweithdy yn cyflwyno damcaniaethau am fframweithiau datblygu ac addysgol.<br>• Paratowch adnoddau ar gyfer y gweithdy sy'n esbonio o leiaf dwy (2) ddamcaniaeth datblygu gwahanol. Dylai eich adnodd hefyd esbonio sut mae'r damcaniaethau a'r fframweithiau addysgol hyn yn dylanwadu ar arferion cyfredol, gan roi enghreifftiau.<br><br>Nod y gweithdy olaf yw cyfeirio rhieni at weithwyr proffesiynol ac ymyriadau eraill.<br>• Paratowch ar gyfer y gweithdy hwn drwy ymchwilio i weithwyr proffesiynol eraill yn eich ardal leol a all hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i blentyn neu berson ifanc, lle nad yw eu datblygiad yn dilyn y patrwm disgwyliedig.<br>• Crëwch lyfryn i'w rannu yn eich gweithdy sy'n nodi sut y gall y gweithwyr proffesiynol hyn gefnogi plentyn neu berson ifanc, gan esbonio'r gwahanol fathau o ymyriadau sydd ar gael.<br>• Ychwanegwch esboniad o'r gwahanol ddulliau y gallai staff cymorth eu defnyddio i fonitro datblygiad plant a phobl ifanc.<br><br>Bydd eich adnoddau ar gyfer y gyfres o weithdai yn cael eu cadw fel ffynhonnell gyfeirio ar gyfer staff ysgolion yn y dyfodol. |

## STL3C6: Cefnogi ymddygiad cadarnhaol mewn plant a phobl ifanc (F/616/5883)

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi ymddygiad cadarnhaol plant a phobl ifanc. Mae'n gofyn am ddangos cymhwysedd wrth hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a rheoli ymddygiad sy'n herio. |
| **Gwerth credyd** | 4 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad** | 20 |
| **Lefel** | 3 |
| **Gorfodol/dewisol** | Gorfodol ar gyfer Tystysgrif a Diploma |

| | |
|---|---|
| **Enw'r dysgwr:** | |
| **Rhif Canolfan:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 1. Deall polisïau a gweithdrefnau ar gyfer hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol plant a phobl ifanc mewn amgylchedd dysgu | 1.1 Crynhoi polisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol plant a phobl ifanc | | |
| | 1.2 Esbonio ymarfer effeithiol mewn perthynas â rheoli ymddygiad | | |
| 2. Gallu hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol | 2.1 Adolygu disgwyliadau mewn perthynas ag ymddygiad wrth weithio gydag eraill | | |
| | 2.2 Egluro strategaethau ar gyfer hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r lleoliad | | |
| | 2.3 Defnyddio ymddygiad model rôl effeithiol ar gyfer y safonau ymddygiad a ddisgwylir gan blant, pobl ifanc ac oedolion yn yr amgylchedd dysgu | | |
| 3. Gallu rheoli ymddygiad sy'n herio mewn amgylchedd dysgu | 3.1 Dangos strategaethau i leihau aflonyddwch mewn amgylchedd addysgu a dysgu | | |
| | 3.2 Defnyddio polisïau a gweithdrefnau i reoli **ymddygiad sy'n herio** | | |
| | 3.3 Darparu cymorth i gydweithwyr mewn perthynas ag ymddygiad sy'n herio | | |
| | 3.4 Esbonio prosesau atgyfeirio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymddygiad sy'n herio | | |

**STL3C6: Cefnogi ymddygiad cadarnhaol mewn plant a phobl ifanc (F/616/5883) (parhad)**

**Canllawiau asesu**

| **Cyflwyno ac asesu** |
|---|
| 3.2 **Ymddygiad sy'n herio** yw ymddygiad sy'n gwrthdaro â gwerthoedd a chredoau derbyniol y lleoliad a'r gymdeithas.<br><br>Gellir dangos ymddygiad amhriodol trwy leferydd, ysgrifennu, ymddygiad di-eiriau neu gam-drin corfforol.<br><br>Gall gynnwys:<br><br>• cam-drin ar lafar (e.e. sylwadau hiliol, bygythiadau, bwlio eraill)<br>• cam-drin corfforol (e.e. ymosodiad ar bobl eraill, difrodi eiddo)<br>• ymddygiad sy'n ddinistriol i'r plentyn/person ifanc<br>• ymddygiad sy'n anghyfreithlon. |

| |
|---|
| **Datganiad dilysrwydd y dysgwr:**<br>Rwy’n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy’n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.<br><br>Llofnod y dysgwr: Dyddiad: |

| |
|---|
| **Aseswr yn cymeradwyo’r uned a gwblhawyd:** STL3C6<br>Rwy’n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth a sgiliau ar gyfer yr uned hon.<br><br>Enw’r aseswr:<br><br>Llofnod: Dyddiad: |

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi’n bersonol a diogel.

**STL3C6: Cefnogi ymddygiad cadarnhaol mewn plant a phobl ifanc (F/616/5883) (parhad)**

| Tasgau Asesu STL3C6: Cefnogi ymddygiad cadarnhaol mewn plant a phobl ifanc |
|---|
| Mae'r dasg hon nad yw'n orfodol wedi'i datblygu i gyflawni'r canlyniadau dysgu gwybodaeth ar gyfer yr uned hon.<br><br>Mae **Tasg 1** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 1 (MPA 1.1, 1.2)<br><br>**Darllenwch y senario cyn rhoi cynnig ar y dasg:**<br><br>Rydych wedi cael eich gosod gyda dosbarth newydd ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Yn ystod eich sesiwn 1-1 gyda'r athro dosbarth mae hi'n rhannu gwybodaeth gan yr athrawes ddosbarth flaenorol am dri phlentyn sy'n dangos ymddygiad sy'n heriol weithiau. Mae'r athro dosbarth yn gofyn i chi wneud rhywfaint o ymchwil annibynnol i bolisïau a gweithdrefnau yn barod ar gyfer cyfarfod staff dechrau'r tymor.<br><br>• Crynhowch bolisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol plant a phobl ifanc<br>• Esboniwch ymarfer effeithiol mewn perthynas â rheoli ymddygiad. |

## STL3C7: Cefnogi plant a phobl ifanc yn ystod gweithgareddau dysgu (J/616/5884)

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i gefnogi gweithgareddau dysgu mewn gwahanol amgylcheddau dysgu. Mae'n gofyn am gymhwysedd wrth gefnogi'r cylch cynllunio, cyflwyno, asesu ac adolygu. |
| **Gwerth credyd** | 4 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad** | 25 |
| **Lefel** | 3 |
| **Gorfodol/dewisol** | Gorfodol ar gyfer Tystysgrif a Diploma |

| | |
|---|---|
| **Enw'r dysgwr:** | |
| **Rhif Canolfan:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 1. Gallu cyfrannu at gynllunio gweithgareddau dysgu | 1.1 Esbonio sut y gall staff cymorth gyfrannu at gynllunio, cyflwyno ac adolygu gweithgareddau dysgu i gefnogi addysgu a dysgu | | |
| | 1.2 Defnyddio gwybodaeth am blant a phobl ifanc i gyfrannu at gynllunio a chynnig awgrymiadau adeiladol ar gyfer eu rôl eu hunain | | |
| 2. Gallu paratoi ar gyfer gweithgareddau dysgu | 2.1 Dewis a pharatoi'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y gweithgareddau dysgu a gynlluniwyd | | |
| | 2.2 Esbonio amcanion, cynnwys a chanlyniadau arfaethedig gweithgareddau dysgu | | |
| | 2.3 Datblygu ac addasu adnoddau i ddiwallu anghenion dysgwyr | | |
| 3. Gallu cefnogi gweithgareddau dysgu | 3.1 Dewis ac arddangos strategaethau cymorth dysgu i ddiwallu anghenion dysgwyr | | |
| | 3.2 Dangos sut i weithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi gweithgareddau dysgu | | |
| | 3.3 Dangos sut i gefnogi cynnwys yr holl ddysgwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau dysgu | | |
| | 3.4 Esbonio rhwystrau wrth gefnogi gweithgareddau dysgu a sut i oresgyn y rhain | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| | 3.5 Dangos sut i gefnogi dysgu mewn gwahanol amgylcheddau:<br>• dan do<br>• yn yr awyr agored | | |
| 4. Gallu arsylwi ac adrodd ar gyfranogiad a chynnydd dysgwyr | 4.1 Asesu datblygiad, cyfranogiad a chynnydd dysgwyr | | |
| | 4.2 Defnyddio dulliau a deunyddiau gofynnol i gofnodi arsylwadau a rhoi adborth i eraill ar ddatblygiad, cyfranogiad a chynnydd dysgwyr | | |
| 5. Gallu cyfrannu at werthuso gweithgareddau dysgu | 5.1 Dangos sut i gyfrannu at werthuso gweithgareddau dysgu | | |
| | 5.2 Defnyddio canlyniadau arsylwadau ac asesiadau i:<br>• roi adborth i ddysgwyr ar eu cynnydd<br>• rhoi adborth adeiladol i'r athro ar y gweithgareddau dysgu | | |
| | 5.3 Myfyrio ar ymarfer eu hunain wrth gefnogi gweithgareddau dysgu | | |

**Datganiad dilysrwydd y dysgwr:**
Rwy'n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.

Llofnod y dysgwr: Dyddiad:

**Aseswr yn cymeradwyo'r uned a gwblhawyd:** STL3C7
Rwy'n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth a sgiliau ar gyfer yr uned hon.

Enw'r aseswr:

Llofnod: Dyddiad:

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi'n bersonol a diogel.

**STL3C8: Cefnogi sgiliau Saesneg a mathemateg (L/616/5885)**

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i ddarparu cymorth Saesneg a mathemateg ar draws addysgu a dysgu*. |
| **Gwerth credyd** | 4 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad** | 25 |
| **Lefel** | 3 |
| **Gorfodol/dewisol** | Gorfodol ar gyfer Tystysgrif a Diploma |

| | |
|---|---|
| **Enw'r dysgwr:** | |
| **Rhif Canolfan:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 1. Gallu adnabod anghenion dysgwyr ar gyfer cymorth Saesneg a mathemateg | 1.1 Coladu gwybodaeth am:<br>• sgiliau Saesneg a mathemateg dysgwyr<br>• targedau dysgu dysgwyr<br>• anghenion dysgwyr ar gyfer cymorth Saesneg a mathemateg | | |
| | 1.2 Nodi ac egluro:<br>• cmcanion dysgu ac addysgu gweithgaredd a gynlluniwyd<br>• gofynion Saesneg a mathemateg gweithgareddau dysgu | | |
| 2. Gallu darparu cymorth Saesneg i helpu dysgwyr i gael mynediad at addysgu a dysgu | 2.1 Defnyddio gwybodaeth am anghenion unigol dysgwyr i ddarparu cymorth Saesneg | | |
| | 2.2 Defnyddio cyfleoedd i gefnogi datblygiad **sgiliau Saesneg** dysgwyr | | |
| | 2.3 Defnyddio amrywiaeth o strategaethau ar gyfer cefnogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu a chyfathrebu | | |
| | 2.4 Dangos sut i weithio gyda phlant a phobl ifanc mewn ffyrdd sy'n annog hunan-barch a hyder mewn perthynas â sgiliau Saesneg | | |
| 3. Gallu darparu cymorth mathemateg i helpu dysgwyr i gael mynediad at addysgu a dysgu | 3.1 Defnyddio gwybodaeth am anghenion unigol dysgwyr i ddarparu cymorth mathemateg | | |
| | 3.2 Defnyddio cyfleoedd i gefnogi datblygiad **sgiliau mathemateg** dysgwyr | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 3.3 Defnyddio ystod o strategaethau ar gyfer cefnogi dysgwyr i ddefnyddio a datrys problemau mathemategol | | |
| | 3.4 Dangos sut i weithio gyda phlant a phobl ifanc mewn ffyrdd sy'n annog hunan-barch a hyder mewn perthynas â sgiliau mathemateg | | |

**STL3C8: Cefnogi sgiliau Saesneg a mathemateg (L/616/5885) (parhad)**

**Canllawiau asesu**

**Cyflwyno ac asesu**

2.2 **Sgiliau Saesneg*.** h.y. darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando.

3.2 Mae **sgiliau mathemateg** yn cwmpasu'r hyder a'r sgiliau sydd eu hangen i ddefnyddio a chymhwyso mathemateg gan gynnwys:

- cyfrif a deall rhifau
- gwybod a defnyddio ffeithiau rhif
- cyfrifo
- deall siâp
- mesur
- casglu gwybodaeth drwy gyfrif a mesur
- trin data
- cyflwyno data mewn graffiau, diagramau a thablau.

*Noder, mewn ysgolion Cymraeg a Gwyddeleg eu hiaith, gellir cyflwyno a chyflawni'r holl ganlyniadau dysgu a meini prawf asesu yng nghyd-destun y Gymraeg/ y Wyddeleg yn hytrach na'r Saesneg.

**Datganiad dilysrwydd y dysgwr:**
Rwy'n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.

Llofnod y dysgwr: Dyddiad:

**Aseswr yn cymeradwyo'r uned a gwblhawyd:** STL3C8
Rwy'n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth a sgiliau ar gyfer yr uned hon.

Enw'r aseswr:

Llofnod: Dyddiad:

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi'n bersonol a diogel.

**STL3C9: Cefnogi'r defnydd o TGCh yn yr amgylchedd dysgu (M/616/5958)**

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i ddarparu cymorth TGCh ar draws addysgu a dysgu. Mae'n gofyn am wybodaeth am bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer defnyddio TGCh yn yr amgylchedd dysgu ac arddangos cymhwysedd wrth ddefnyddio TGCh i hyrwyddo dysgu a chefnogi dysgwyr i adolygu eu cyflawniadau. |
| **Gwerth credyd** | 3 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad** | 15 |
| **Lefel** | 3 |
| **Gorfodol/dewisol** | Gorfodol ar gyfer Tystysgrif a Diploma |

| | |
|---|---|
| **Enw'r dysgwr:** | |
| **Rhif Canolfan:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 1. Deall y polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer defnyddio TGCh ar gyfer addysgu a dysgu | 1.1 Disgrifio polisi'r lleoliad ar gyfer defnyddio TGCh ar gyfer addysgu a dysgu | | |
| | 1.2 Nodi'r adnoddau TGCh a ddefnyddir ar gyfer addysgu a dysgu yn yr amgylchedd dysgu | | |
| | 1.3 Amlinellu deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau perthnasol mewn perthynas â defnyddio TGCh, e.e. trwyddedu meddalwedd | | |
| | 1.4 Disgrifio'r gofynion a'r gweithdrefnau ar gyfer storio a diogelwch adnoddau TGCh | | |
| 2. Deall sut i baratoi adnoddau TGCh i'w defnyddio mewn addysgu a dysgu | 2.1 Disgrifio'r risgiau sy'n gysylltiedig ag adnoddau TGCh a sut i'w lleihau | | |
| | 2.2 Rhestru adnoddau TGCh y gellir eu cyrchu mewn amgylchedd addysgu a dysgu | | |
| | 2.3 Esbonio pwysigrwydd defnyddio dyfeisiau sgrinio i atal mynediad at ddeunydd anaddas drwy'r rhyngrwyd | | |
| 3. Gallu cefnogi'r defnydd o TGCh ar gyfer addysgu a dysgu | 3.1 Defnyddio adnoddau TGCh yn gywir ac yn ddiogel, pan ofynnir iddynt wneud hynny | | |
| | 3.2 Rhoi arweiniad a chyfarwyddiadau clir i eraill ar ddefnyddio adnoddau TGCh | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| | 3.3 Darparu lefel briodol o gymorth i alluogi dysgwyr i brofi ymdeimlad o gyflawniad, cynnal hunanhyder ac annog sgiliau hunangymorth wrth ddefnyddio TGCh | | |
| | 3.4 Disgrifio'r mathau o broblemau a allai ddigwydd wrth gefnogi dysgwyr i ddefnyddio TGCh a sut i ddelio â'r rhain | | |

**Datganiad dilysrwydd y dysgwr:**
Rwy'n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.

Llofnod y dysgwr: Dyddiad:

**Aseswr yn cymeradwyo'r uned a gwblhawyd:** STL3C9
Rwy'n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth a sgiliau ar gyfer yr uned hon.

Enw'r aseswr:

Llofnod: Dyddiad:

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi'n bersonol a diogel.

## STL3C9: Cefnogi'r defnydd o TGCh yn yr amgylchedd dysgu (M/616/5958) (parhad)

| Tasgau asesu STL3C9: Cefnogi'r defnydd o TGCh yn yr amgylchedd dysgu |
|---|
| Mae'r tasgau hyn nad ydynt yn rhai gorfodol wedi’u datblygu i gyflawni'r canlyniadau dysgu gwybodaeth ar gyfer yr uned hon.<br><br>Mae **Tasg 1** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 1 (MPA 1.1, 1.3)<br><br>• Cynhyrchwch daflen ffeithiau sy’n:<br>– disgrifio polisi'r lleoliad ar gyfer defnyddio TGCh ar gyfer addysgu a dysgu<br>– amlinellu deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau mewn perthynas â defnyddio TGCh, e.e. trwyddedu meddalwedd<br><br>Mae **Tasg 2** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 1 (MPA 1.2, 1.4) a chanlyniad dysgu 2 (MPA 2.2)<br><br>• Cynhyrchwch lyfryn i staff newydd yn nodi'r adnoddau TGCh a ddefnyddir ar gyfer addysgu a dysgu yn yr amgylchedd dysgu. Dylai'r llyfryn hwn hefyd nodi'r ategolion, defnyddiau traul a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddefnyddio adnoddau TGCh yn ogystal â disgrifio'r gofynion a'r gweithdrefnau ar gyfer storio a diogelwch yr adnoddau TGCh.<br><br>Mae **Tasg 3** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 2 (MPA 2.1, 2.3)<br><br>**Darllenwch y senario cyn rhoi cynnig ar y dasg:**<br><br>Mae eich ysgol/coleg yn cymryd rhan yn ymgyrch Wythnos Diogelwch Cenedlaethol a bydd yn cynnal digwyddiadau i blant, pobl ifanc ac oedolion ar amrywiaeth o bynciau sy'n ymwneud â chadw'n ddiogel.<br>Gofynnir i chi ddarparu gweithdai i hyrwyddo diogelwch TGCh.<br><br>• Crëwch gyflwyniad neu daflen ar gyfer y gweithdai sy'n:<br>– disgrifio'r risgiau sy'n gysylltiedig ag adnoddau TGCh a sut i'w lleihau<br>– esbonio pwysigrwydd defnyddio dyfeisiau sgrinio i atal mynediad at ddeunydd anaddas drwy'r rhyngrwyd. |

**STL3C10: Cefnogi asesu ar gyfer dysgu (J/616/5965)**

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i gefnogi asesu ar gyfer dysgu. Mae'n gofyn am arddangos cymhwysedd wrth ddefnyddio strategaethau asesu i hyrwyddo dysgu, cefnogi dysgwyr i adolygu eu strategaethau dysgu a'u cyflawniadau, a gweithio gyda'r athro i adolygu prosesau a chanlyniadau asesu ar gyfer dysgu. |
| **Gwerth credyd** | 3 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad** | 15 |
| **Lefel** | 3 |
| **Gorfodol/dewisol** | Gorfodol ar gyfer Tystysgrif a Diploma |

| | |
|---|---|
| **Enw'r dysgwr:** | |
| **Rhif Canolfan:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 1. Deall pwrpas a nodweddion asesu ar gyfer dysgu | 1.1 Dadansoddi rôl y gweithiwr cymorth mewn perthynas ag asesu cyflawniad dysgwyr | | |
| | 1.2 Crynhoi'r gwahaniaeth rhwng asesu ffurfiannol a chrynodol | | |
| | 1.3 Esbonio nodweddion asesu ar gyfer dysgu | | |
| 2. Gallu defnyddio strategaethau asesu i hyrwyddo dysgu | 2.1 Defnyddio iaith glir ac enghreifftiau i drafod ac egluro nodau dysgu personol a meini prawf ar gyfer asesu cynnydd gyda dysgwyr | | |
| | 2.2 Defnyddio **cyfleoedd a strategaethau asesu** i gael gwybodaeth a llunio barn ynghylch pa mor dda y mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a'r cynnydd y maent yn ei wneud | | |
| 3. Gallu cefnogi dysgwyr i adolygu eu strategaethau a'u cyflawniadau dysgu | 3.1 Defnyddio gwybodaeth a gafwyd o fonitro cyfranogiad a chynnydd dysgwyr i helpu dysgwyr i adolygu eu strategaethau dysgu, cyflawniadau ac anghenion dysgu yn y dyfodol | | |
| | 3.2 Arddangos ffyrdd o annog dysgwyr i gyfleu eu hanghenion a'u syniadau ar gyfer dysgu yn y dyfodol | | |
| | 3.3 Dangos sut i gefnogi dysgwyr i ddefnyddio asesu cyfoedion a hunanasesu i werthuso eu cyflawniadau dysgu | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| | 3.4 Dangos sut i gefnogi dysgwyr i:<br>• fyfyrio ar eu dysgu<br>• nodi'r cynnydd y maent wedi'i wneud<br>• nodi eu hanghenion dysgu wrth iddynt ddod i'r amlwg<br>• nodi cryfderau a gwendidau eu strategaethau dysgu a chynllunio sut i'w gwella | | |
| 4. Gallu cyfrannu at adolygu asesu ar gyfer dysgu | 4.1 Rhoi adborth i'r athro ar:<br>• gyfranogiad a chynnydd dysgwyr yn y gweithgareddau dysgu<br>• ymgysylltiad dysgwyr mewn asesu ar gyfer dysgu a'u hymateb i asesu ar gyfer dysgu<br>• cynnydd dysgwyr wrth gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain | | |
| 5. Gallu cadw cofnodion dysgwyr | 5.1 Coladu'r wybodaeth sydd ei hangen i ddiweddaru cofnodion dysgwyr o ffynonellau dilys a dibynadwy | | |
| | 5.2 Dangos sut i godi unrhyw **bryderon** ynghylch y wybodaeth gyda'r **bobl berthnasol** | | |
| | 5.3 Adolygu cofnodion dysgwyr i sicrhau eu bod yn gywir, yn gyflawn ac yn gyfredol | | |
| | 5.4 Dangos sut i gynnal cyfrinachedd yn unol â gofynion sefydliadol a chyfreithiol | | |
| | 5.5 Defnyddio gweithdrefnau sefydliadol i sicrhau bod cofnodion dysgwyr yn cael eu storio'n ddiogel | | |

**STL3C10: Cefnogi asesu ar gyfer dysgu (J/616/5965) (parhad)**

**Canllawiau asesu**

| **Cyflwyno ac asesu** |
|---|
| **2.2 Cyfleoedd asesu a strategaethau** yw'r achlysuron, y dulliau a'r technegau a ddefnyddir ar gyfer asesu parhaus yn ystod gweithgareddau dysgu, megis:<br>• defnyddio cwestiynau penagored<br>• arsylwi dysgwyr<br>• gwrando ar sut mae dysgwyr yn disgrifio eu gwaith a'u rhesymeg<br>• gwirio dealltwriaeth dysgwyr<br>• ymgysylltu â dysgwyr wrth adolygu cynnydd<br>• annog dysgwyr i gadw mewn cof eu nodau dysgu ac asesu eu cynnydd eu hunain o ran cyflawni'r rhain wrth iddynt symud ymlaen<br>• annog dysgwyr i adolygu a rhoi sylwadau ar eu gwaith cyn ei gyflwyno neu ei drafod gyda'r athro<br>• canmol dysgwyr pan fyddant yn canolbwyntio eu sylwadau ar eu nodau dysgu personol ar gyfer y dasg<br>• annog asesu cyfoedion.<br><br>**5.2 Pryderon yn** ymwneud â:<br>• dilysrwydd gwybodaeth<br>• uniondeb gwybodaeth<br>• digonolrwydd gwybodaeth<br>• goblygiadau ehangach y wybodaeth (e.e. patrymau presenoldeb, pryderon amddiffyn plant).<br><br>**5.2 Pobl berthnasol** e.e.:<br>• athrawon<br>• pennaeth pwnc/grŵp blwyddyn<br>• cydlynydd anghenion addysgol arbennig<br>• cydlynydd y rhaglen<br>• uwch reolwyr<br>• Swyddog Diogelu Dynodedig<br>• Swyddog Lles Addysg<br>• staff swyddfa. |

**STL3C10: Cefnogi asesu ar gyfer dysgu (J/616/5965) (parhad)**

**Datganiad dilysrwydd y dysgwr:**
Rwy'n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.

Llofnod y dysgwr: Dyddiad:

**Aseswr yn cymeradwyo'r uned a gwblhawyd:** STL3C10
Rwy'n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth a sgiliau ar gyfer yr uned hon.

Enw'r aseswr:

Llofnod: Dyddiad:

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi'n bersonol a diogel.

**STL3C10: Cefnogi asesu ar gyfer dysgu (J/616/5965) (parhad)**

| **Tasgau asesu STL3C10: Cefnogi asesu ar gyfer dysgu** |
| --- |
| Mae'r dasg hon nad yw’n orfodol wedi’i datblygu i gyflawni'r canlyniadau dysgu gwybodaeth ar gyfer yr uned hon.<br><br>Mae'r uned hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddeall pwrpas asesu ar gyfer dysgu.<br><br>Mae **Tasg 1** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 1 (MPA 1.1, 1.2, 1.3)<br><br>• Paratowch gyflwyniad i'w rannu â chydweithwyr yn ystod wythnos datblygu staff ar asesu ar gyfer dysgu.<br>Dylai'r cyflwyniad hwn:<br>– ddadansoddi rôl y gweithiwr cymorth mewn perthynas ag asesu cyflawniad dysgwyr<br>– crynhoi'r gwahaniaeth rhwng asesu ffurfiannol a chrynodol<br>– esbonio nodweddion asesu ar gyfer dysgu. |

**STL3C11: Cymryd rhan mewn datblygiad personol a phroffesiynol (L/616/5966)**

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r uned** | Mae'r uned hon wedi'i hanelu at y rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn ystod eang o amgylcheddau dysgu. Mae'r uned yn ystyried datblygiad personol ac ymarfer myfyriol sy'n hanfodol i'r rôl hon. |
| **Gwerth credyd** | 3 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad** | 15 |
| **Lefel** | 3 |
| **Gorfodol/dewisol** | Gorfodol ar gyfer Tystysgrif a Diploma |

| | |
|---|---|
| **Enw'r dysgwr:** | |
| **Rhif Canolfan:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 1. Deall yr hyn sydd ei angen i berfformio'n dda yn ei rôl waith ei hun | 1.1 Disgrifio rolau a chyfrifoldebau yn ei rôl waith ei hun | | |
| 2. Gallu myfyrio ar ymarfer sefydliadol | 2.1 Esbonio sut mae myfyrio yn cefnogi gwella ansawdd yr amgylchedd dysgu | | |
| | 2.2 Arddangos y gallu i fyfyrio ar ymarfer | | |
| | 2.3 Disgrifio sut y gall gwerthoedd, systemau credoau a phrofiadau personol effeithio ar arferion gwaith | | |
| 3. Gallu gwerthuso ei berfformiad ei hun | 3.1 Gwerthuso gwybodaeth, perfformiad a dealltwriaeth ei hun yn erbyn **meincnodau mewnol neu allanol** | | |
| | 3.2 Arddangos defnydd o adborth i werthuso perfformiad personol a llywio datblygiad | | |
| 4. Gallu cytuno ar gynllun datblygu personol | 4.1 Nodi ffynonellau cymorth ar gyfer cynllunio ac adolygu datblygiad personol | | |
| | 4.2 Dangos sut i weithio gydag **eraill** i adolygu a blaenoriaethu anghenion dysgu, diddordebau proffesiynol a chyfleoedd datblygiad personol | | |
| | 4.3 Dangos sut i weithio gydag eraill i gytuno ar gynllun datblygu personol a gosod targedau | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 5. Gallu defnyddio cyfleoedd dysgu ac ymarfer myfyriol er mwyn cyfrannu at ddatblygiad personol | 5.1 Gwerthuso sut mae **cyfleoedd dysgu** a nodwyd yn eich cynllun datblygu personol wedi gwella perfformiad | | |
| | 5.2 Esbonio sut mae ymarfer myfyriol personol wedi arwain at ffyrdd gwell o weithio | | |
| | 5.2 Dangos sut i gofnodi cynnydd mewn perthynas â chynllun datblygu personol. | | |

**Canllawiau asesu**

| **Cyflwyno ac asesu** |
|---|
| **3.1 Meincnodau mewnol ac allanol** e.e.:<br>• codau ymarfer<br>• rheoliadau<br>• safonau gofynnol<br>• Ofsted/Estyn<br>• llawlyfr staff<br>• swydd ddisgrifiad.<br><br>4.2 Gall **eraill** gynnwys:<br>• gofalwyr<br>• eiriolwyr<br>• goruchwylydd, rheolwr llinell neu gyflogwr<br>• gweithwyr proffesiynol eraill.<br><br>**5.1 Cyfleoedd dysgu** e.e.:<br>• cwrs ffurfiol fel cymorth cyntaf<br>• hyfforddiant mewnol<br>• ymarferion ymarferol<br>• diweddaru ar-lein, gweminarau<br>• cysgodi cydweithwyr<br>• ymchwil neu ddarllen annibynnol. |

**STL3C11: Cymryd rhan mewn datblygiad personol a phroffesiynol (L/616/5966) (parhad)**

| |
|---|
| **Datganiad dilysrwydd y dysgwr:**<br>Rwy'n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.<br><br>Llofnod y dysgwr: Dyddiad: |

| |
|---|
| **Aseswr yn cymeradwyo'r uned a gwblhawyd:** STL3C11<br>Rwy'n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth a sgiliau ar gyfer yr uned hon.<br><br>Enw'r aseswr:<br><br>Llofnod: Dyddiad: |

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi'n bersonol a diogel.

**STL3C11: Cymryd rhan mewn datblygiad personol a phroffesiynol (L/616/5966) (parhad)**

| **Tasg asesu STL3C11: Cymryd rhan mewn datblygiad personol a phroffesiynol** |
|---|
| Mae'r dasg hon nad yw'n orfodol wedi'i datblygu i gyflawni'r canlyniadau dysgu gwybodaeth ar gyfer yr uned hon.<br><br>Mae **Tasg 1** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 1 (MPA 1.1)<br><br>Cyfeiriwch at eich disgrifiad swydd neu un ar gyfer rôl cynorthwyydd addysgu i'ch cefnogi gyda'r dasg hon.<br><br>• Disgrifiwch rolau a chyfrifoldebau yn eich rôl waith eich hun. |

**STL3D12: Cefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu plant a phobl ifanc (D/616/5969)**

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r uned** | Nod yr uned hon yw darparu sylfaen ar gyfer deall pwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gyfer datblygiad cyffredinol plant a phobl ifanc a'u rhyngweithio ag eraill. Mae hefyd yn archwilio ffyrdd o gefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu. |

| | |
|---|---|
| **Gwerth credyd** | 4 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad** | 25 |
| **Lefel** | 3 |
| **Gorfodol/dewisol** | Gorfodol ar gyfer Diploma |

| | |
|---|---|
| **Enw'r dysgwr:** | |
| **Rhif Canolfan:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 1. Deall pwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gyfer datblygiad cyffredinol plant a phobl ifanc. | 1.1. Esbonio pob un o'r termau:<br>• lleferydd<br>• iaith<br>• cyfathrebu<br>• anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu | | |
| | 1.2 Disgrifio safbwyntiau damcaniaethol mewn perthynas â datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu | | |
| | 1.3 Esbonio sut mae sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant a phobl ifanc yn effeithio ar feysydd datblygu eraill | | |
| | 1.4 Disgrifio effaith bosibl anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ar ddatblygiad cyfannol yn y tymor byr a'r tymor hir | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 2. Deall rôl staff cymorth wrth gefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu yn yr amgylchedd dysgu | 2.1 Esbonio sut y gall staff cymorth gefnogi ac ymestyn datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu plant a phobl ifanc yn effeithiol drwy ddefnyddio:<br>• awgrymiadau a chiwiau gweledol<br>• gwahanol fathau o ryngweithio<br>• datblygu geirfa<br>• defnyddio gwahanol fathau o gyfathrebu<br>• addasu dulliau cyfathrebu i ddiwallu anghenion a galluoedd plant a phobl ifanc | | |
| 3. Gallu darparu cymorth ar gyfer datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu plant a phobl ifanc yn yr amgylchedd dysgu | 3.1 Arddangos sut i ddarparu cymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu i unigolion, plant a/neu bobl ifanc gan ystyried:<br>• oed<br>• anghenion penodol<br>• galluoedd<br>• iaith y cartref<br>• ddiddordebau plant a phobl ifanc eu hunain | | |
| | 3.2 Dadansoddi sut mae'r defnydd o dechnoleg yn cefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu | | |
| | 3.3 Arddangos sut i weithio gyda phlant a phobl ifanc i ddatblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y sefyllfaoedd canlynol:<br>• ar sail 1:1<br>• mewn grwpiau | | |
| | 3.4 Arddangos ffyrdd o gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cyfathrebu a rhyngweithio i gymryd rhan weithredol mewn tasgau a gweithgareddau dysgu | | |
| 4. Gallu cyfrannu at gynnal amgylchedd positif sy'n cefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu | 4.1 Dangos sut i greu amgylchedd cadarnhaol ar gyfer cefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu | | |
| | 4.2 Myfyrio ar rôl eich hun mewn perthynas â chefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu | | |

**STL3D12: Cefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu plant a phobl ifanc (D/616/5969) (parhad)**

| |
|---|
| **Datganiad dilysrwydd y dysgwr:**<br>Rwy’n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy’n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.<br><br>Llofnod y dysgwr: Dyddiad: |

| |
|---|
| **Aseswr yn cymeradwyo’r uned a gwblhawyd:** STL3D12<br>Rwy’n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth a sgiliau ar gyfer yr uned hon.<br><br>Enw’r aseswr:<br><br>Llofnod: Dyddiad: |

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi’n bersonol a diogel.

**STL3D12: Cefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu plant a phobl ifanc (D/616/5969) (parhad)**

**Tasgau asesu STL3C12: Cefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu plant a phobl ifanc**

Mae'r tasgau hyn nad ydynt yn rhai gorfodol wedi’u datblygu i gyflawni'r canlyniadau dysgu gwybodaeth ar gyfer yr uned hon.

Mae **Tasg 1** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 1 (MPA 1.1, 1.2, 1.3, 1.4)

Mae’r dasg yn ystyried pwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gyfer datblygiad cyffredinol plant a phobl ifanc.

- Dechreuwch trwy ddiffinio'r termau:
  - lleferydd
  - iaith
  - cyfathrebu
  - anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.
- Nesaf, cyfeiriwch at ymchwil a wnaed ar safbwyntiau damcaniaethol mewn perthynas â datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu a disgrifiwch o leiaf ddwy (2) ddamcaniaeth.
- Yn olaf, esboniwch sut mae sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant a phobl ifanc yn effeithio ar feysydd datblygu eraill. Dylech sicrhau eich bod yn cynnwys disgrifiad o effaith bosibl anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ar ddatblygiad cyfannol yn y tymor byr a'r tymor hir. Gellir defnyddio enghreifftiau i gefnogi eich ymateb.

Mae **Tasg 2** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 2 (MPA 2.1)

- Trefnwch gyfarfodydd gyda chydweithwyr sy'n cefnogi plant a phobl ifanc gyda lleferydd, iaith a chyfathrebu yn eich gweithle.
- Archwiliwch sut maent yn cefnogi ac yn ehangu datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu yn effeithiol.
- Ysgrifennwch adroddiad i esbonio eich canfyddiadau, gan roi enghreifftiau o:
  - awgrymiadau a chiwiau gweledol
  - gwahanol fathau o ryngweithio
  - datblygu geirfa
  - defnyddio gwahanol fathau o gyfathrebu
  - addasu dulliau cyfathrebu i ddiwallu anghenion a galluoedd plant a phobl ifanc.

**STL3D13: Deall sut i gefnogi dysgwyr dwyieithog (Y/616/5971)** ☆

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i gefnogi dysgwyr dwyieithog mewn amgylchedd dysgu. |
| **Gwerth credyd** | 3 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad** | 15 |
| **Lefel** | 3 |
| **Gorfodol/dewisol** | Gorfodol ar gyfer Diploma |

| | |
|---|---|
| **Enw'r dysgwr:** | |
| **Rhif Canolfan:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 1. Deall sut i gyfrannu at asesu dysgwyr dwyieithog | 1.1 Diffinio'r termau:<br>• Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL)<br>• dwyieithog<br>• uwch ddysgwr EAL | | |
| | 1.2 Esbonio pwysigrwydd cynnal asesiad cychwynnol o ddysgwyr dwyieithog | | |
| | 1.3 Nodi'r mathau o wybodaeth y gallai fod ei hangen ar bobl berthnasol i'w helpu i ddiwallu anghenion dysgu, datblygiad iaith a llesiant y dysgwr dwyieithog | | |
| | 1.4 Esbonio pam y gallai fod angen asesiad arbenigol | | |
| 2. Deall sut i gefnogi dysgwyr dwyieithog i gael mynediad i'r cwricwlwm | 2.1 Esbonio pwysigrwydd defnyddio iaith ddewisol y dysgwyr i'w cyflwyno i'r amgylchedd dysgu a'u setlo yno | | |
| | 2.2 Disgrifio gweithgareddau ac adnoddau dysgu gwahanol y gellir eu defnyddio i hyrwyddo dysgu personol gan gynnwys datblygu sgiliau iaith dysgwyr | | |
| | 2.3 Nodi'r heriau y gall y dysgwr dwyieithog eu hwynebu i gael mynediad at ddysgu | | |
| | 2.4 Disgrifio'r strategaethau sy'n cefnogi dysgu a datblygiad iaith dysgwyr dwyieithog unigol | | |

**STL3D13: Deall sut i gefnogi dysgwyr dwyieithog (Y/616/5971) (parhad)**

**Datganiad dilysrwydd y dysgwr:**
Rwy'n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.

Llofnod y dysgwr: Dyddiad:

**Aseswr yn cymeradwyo'r uned a gwblhawyd:** STL3D13
Rwy'n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth a sgiliau ar gyfer yr uned hon.

Enw'r aseswr:

Llofnod: Dyddiad:

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi'n bersonol a diogel.

**STL3D13: Deall sut i gefnogi dysgwyr dwyieithog (Y/616/5971) (parhad)**

| Tasgau asesu STL3C13: Deall sut i gefnogi dysgwyr dwyieithog |
|---|
| Mae'r tasgau hyn nad ydynt yn rhai gorfodol wedi'u datblygu i gyflawni'r canlyniadau dysgu gwybodaeth ar gyfer yr uned hon.<br><br>Mae **Tasg 1** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 1 (MPA 1.1, 1.2, 1.3, 1.4)<br><br>**Darllenwch y senario cyn rhoi cynnig ar y dasg:**<br><br>Mae'r ysgol yn adolygu sut mae'n asesu plant dwyieithog a'r rhai sydd â Saesneg fel ail iaith, wrth baratoi ar gyfer arolygiad Ofsted/Estyn. Mae'r pennaeth cynradd wedi galw cyfarfod ac wedi gofyn i'r holl staff baratoi drwy wneud rhywfaint o ymchwil i gefnogi plant dwyieithog a'r rhai sydd ag EAL.<br><br>• Paratowch adroddiad ar gyfer y cyfarfod sy'n:<br>  – diffinio'r termau:<br>    o Saesneg fel iaith ychwanegol<br>    o dwyieithog<br>    o uwch ddysgwr EAL<br>  – esbonio pwysigrwydd cynnal asesiad cychwynnol o ddysgwyr dwyieithog<br>  – esbonio pam y gallai fod angen asesiad arbenigol<br>  – nodi'r mathau o wybodaeth y gallai fod ei hangen ar bobl berthnasol i'w helpu i ddiwallu anghenion dysgu, datblygiad, iaith a llesiant y dysgwr dwyieithog.<br><br>Mae **Tasg 2** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 2 (MPA 2.2)<br><br>Dysgwch am wahanol weithgareddau ac adnoddau dysgu y gellir eu defnyddio wrth gefnogi plant a phobl ifanc dwyieithog.<br><br>• Disgrifiwch o leiaf ddau (2) weithgaredd ac adnoddau dysgu gwahanol y gellir eu defnyddio i hyrwyddo dysgu personol gan gynnwys datblygu sgiliau iaith dysgwyr.<br><br>Mae **Tasg 3** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 2 (MPA 2.1, 2.3 a 2.4)<br><br>**Darllenwch y senario cyn rhoi cynnig ar y dasg:**<br><br>Mae'r athro dosbarth yn gofyn i chi greu arddangosfa wybodaeth ar gyfer yr hysbysfwrdd yn ystafell staff yr ysgol. Nod hyn yw rhoi arweiniad i gynorthwywyr addysgu a staff cymorth newydd wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc dwyieithog am y tro cyntaf. Rydych wedi bod yn cefnogi tri phlentyn o'r un teulu sydd newydd gyrraedd dros y chwe mis diwethaf ac mae gennych brofiadau defnyddiol i'w rhannu â staff eraill.<br><br>• Crëwch adnodd y gall staff newydd gyfeirio ato sy'n:<br>  – esbonio pwysigrwydd defnyddio iaith ddewisol y dysgwyr i'w cyflwyno i'r amgylchedd dysgu a'u setlo yno<br>  – nodi'r heriau y gall y dysgwr dwyieithog eu hwynebu i gael mynediad at ddysgu<br>  – disgrifio o leiaf ddwy (2) strategaeth sy'n cefnogi dysgu a datblygiad iaith dysgwyr dwyieithog unigol. |

**STL3D14: Deall sut i gefnogi dysgu plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau (A/616/5977)** ☆

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o’r uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i ddarparu cymorth i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau (AAAA) yn yr amgylchedd dysgu. |
| **Gwerth credyd** | 4 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad** | 25 |
| **Lefel** | 3 |
| **Gorfodol/dewisol** | Gorfodol ar gyfer Diploma |

| | |
|---|---|
| **Enw’r dysgwr:** | |
| **Rhif Canolfan:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae’r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 1. Deall egwyddorion ymarfer cynhwysol a hawliau plant a phobl ifanc anabl a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig | 1.1 Nodi gofynion deddfwriaeth bresennol yn y Gwledydd Cartref mewn perthynas ag ymarfer cynhwysol | | |
| | 1.2 Crynhoi hawliau plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau | | |
| | 1.3 Crynhoi'r fframweithiau darparu, asesu ac ymyrraeth ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau | | |
| | 1.4 Esbonio pwysigrwydd adnabod ac ymyrraeth gynnar i blant ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau | | |
| | 1.5 Adnabod **rhwystrau i gyfranogiad** ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau | | |
| 2. Deall sut i gael gwybodaeth am anghenion, galluoedd a diddordebau unigol plant a phobl ifanc anabl, a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig | 2.1 Amlinellu sut i arsylwi a nodi anghenion, galluoedd a diddordebau plant ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau | | |
| | 2.2 Egluro rolau a chyfrifoldebau **eraill** sy'n cyfrannu at gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau | | |
| | 2.3 Gwerthuso buddion gweithio gydag eraill i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 3. Deall anghenion addysgol arbennig plant a phobl ifanc ag anghenion gwybyddol ac anghenion dysgu | 3.1 Disgrifio'r ystod o sgiliau gwybyddol sy'n angenrheidiol ar gyfer dysgu effeithiol | | |
| | 3.2 Nodi'r gwahaniaethau sylweddol rhwng anawsterau dysgu craidd a phenodol | | |
| | 3.3 Esbonio sut mae anawsterau gwybyddol yn effeithio ar ddatblygiad iaith a chyfathrebu a sut y gallai hyn effeithio ar ddysgu | | |
| 4. Deall anghenion addysgol arbennig plant a phobl ifanc sydd ag anghenion datblygiad emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol | 4.1 Esbonio sut y gall agweddau ar fagwraeth, amgylchiadau cartref ac iechyd corfforol ac emosiynol plant a phobl ifanc effeithio ar eu gallu i uniaethu ag eraill | | |
| | 4.2 Esbonio sut y gallai iechyd meddwl effeithio ar fywyd plentyn neu berson ifanc | | |
| | 4.3 Esbonio sut i weithio gyda phlant, pobl ifanc ac eraill i nodi a gosod nodau a ffiniau ymddygiad ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion datblygiad emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol | | |
| | 4.4 Myfyrio ar ffyrdd o ddatblygu hunanddibyniaeth a hunan-barch i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion datblygiad emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol | | |
| 5. Deall anghenion addysgol arbennig dysgwyr ag anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol | 5.1 Esbonio **effaith anabledd sylfaenol** ar ddatblygiad plant a phobl ifanc | | |
| | 5.2 Disgrifio ystod o offer arbenigol ac adnoddau technoleg sydd ar gael i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau a myfyrio ar sut maen nhw'n helpu i oresgyn neu leihau effaith nam synhwyraidd neu gorfforol | | |
| 6. Deall y mathau o strategaethau sydd eu hangen i gefnogi dysgu plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau | 6.1 Esbonio sut i weithio gyda phlant a phobl ifanc gan ddefnyddio strategaethau i gefnogi eu dysgu a'u datblygiad | | |

**STL3D14: Deall sut i gefnogi dysgu plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau (A/616/5977) (parhad)**

**Canllawiau asesu**

| **Cyflwyno ac asesu** |
|---|
| **1.5 Rhwystrau i gyfranogiad:** Unrhyw beth sy'n atal plentyn neu berson ifanc rhag cymryd rhan lawn mewn gweithgareddau a phrofiadau a gynigir gan y lleoliad neu'r gwasanaeth.<br><br>**2.2** Gall **eraill** fod yn:<br>• aelodau'r teulu<br>• athrawon/athrawon arbenigol<br>• oedolion eraill yn y lleoliad, e.e. CADY<br>• gweithwyr proffesiynol allanol i'r lleoliad, e.e. seicolegydd addysgol<br>• gweithwyr iechyd proffesiynol.<br><br>**5.1 Effaith anabledd sylfaenol** i gynnwys effaith:<br>• anabledd corfforol<br>• cyflyrau hirsefydlog neu gynyddol<br>• salwch cronig, poen a gorflinder. |

| **Datganiad dilysrwydd y dysgwr:** |
|---|
| Rwy'n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.<br><br>Llofnod y dysgwr: Dyddiad: |

| **Aseswr yn cymeradwyo'r uned a gwblhawyd:** STL3C14 |
|---|
| Rwy'n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth a sgiliau ar gyfer yr uned hon.<br><br>Enw'r aseswr:<br><br>Llofnod: Dyddiad: |

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi'n bersonol a diogel.

**STL3D14: Deall sut i gefnogi dysgu plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau (A/616/5977) (parhad)**

| **Tasgau asesu STL3C14: Deall sut i gefnogi dysgu plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau.** |
|---|
| Mae'r tasgau hyn nad ydynt yn rhai gorfodol wedi'u datblygu i gyflawni'r canlyniadau dysgu gwybodaeth ar gyfer yr uned hon.<br><br>Mae **Tasg 1** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 1 (MPA 1.1, 1,2, 1.3)<br><br>• Cynhyrchwch gyfres o daflenni ffeithiau ar gyfer staff cymorth mewn ysgolion neu golegau. Mae'n rhaid i'r taflenni ffeithiau:<br>– nodi gofynion deddfwriaeth bresennol yn y Gwledydd Cartref mewn perthynas ag ymarfer cynhwysol<br>– crynhoi hawliau plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau<br>– crynhoi'r fframweithiau darparu, asesu ac ymyrraeth ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau.<br><br>Mae **Tasg 2** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 1 (MPA 1.4, 1.5)<br><br>• Cynhyrchwch adnodd i'w rannu gyda staff cymorth newydd sy'n nodi rhwystrau i gyfranogiad ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau. Rhaid i'r adnoddau hefyd esbonio pwysigrwydd adnabod ac ymyrraeth gynnar.<br><br>Mae **Tasg 3** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 2 (MPA 2.1, 2.2, 2.3) a chanlyniad dysgu 6 (MPA 6.1)<br><br>Wrth baratoi ar gyfer y dasg hon, siaradwch â'ch rheolwr llinell i gael dealltwriaeth o'r dulliau a ddefnyddir i arsylwi ar blant a phobl ifanc er mwyn nodi eu hanghenion, eu galluoedd a'u diddordebau. Ailedrychwch ar eich disgrifiad swydd a myfyriwch ar weithio gydag eraill i gefnogi plant a phobl ifanc.<br><br>**Darllenwch y senario yn gyntaf cyn rhoi cynnig ar y dasg.**<br><br>Gofynnir i chi gefnogi aelod newydd o staff a fydd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau.<br><br>• Datblygwch adnodd arweiniol i'ch cydweithiwr gyfeirio ato. Dylai'r adnodd hwn:<br>– amlinellu sut i arsylwi a nodi anghenion, galluoedd a diddordebau plant ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau<br>– egluro rolau a chyfrifoldebau eraill o leiaf dau (2) weithiwr proffesiynol arall sy'n cyfrannu at gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau<br>– gwerthuso buddion gweithio gydag eraill i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau<br>– esbonio o leiaf tair (3) strategaeth y gall gweithwyr cymorth eu defnyddio wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau i gefnogi eu dysgu a'u datblygiad.<br><br>Mae **Tasg 4** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 3 (MPA 3.1, 3,2, 3.3)<br><br>Gwnewch rywfaint o ymchwil i anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion gwybyddiaeth a dysgu a myfyriwch ar eich profiadau eich hun yn y gweithle. |

- Disgrifiwch yr ystod o sgiliau gwybyddol sy'n angenrheidiol ar gyfer dysgu effeithiol.
- Nodwch y gwahaniaethau sylweddol rhwng anawsterau dysgu craidd a phenodol.
- Esboniwch sut mae anawsterau gwybyddol yn effeithio ar ddatblygiad iaith a chyfathrebu a sut y gallai hyn effeithio ar ddysgu.

Mae **Tasg 5** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 4 (MPA 4.1, 4.2, 4.3, 4.4)

**Darllenwch yr astudiaethau achos cyn rhoi cynnig ar y dasg.**

1. Mae Kia yn 4 oed ac mae ganddo dri brawd hŷn. Mae'r teulu'n aros i symud i dŷ mwy gan fod y fflat maen nhw'n byw ynddo ar hyn o bryd yn rhy fach i'r teulu. Mae Kia yn fyddar ac yn cael ei ystyried ar gyfer mewnblaniad yn y cochlea.
2. Mae Sarah yn naw mlwydd oed ac wedi ymfudo i'r DU o Asia. Yn ystod yr asesiad ysgol nodwyd bod Sarah yn Ddyslecsig ac mae angen cefnogaeth arni ar gyfer hyn yn ogystal â'i hyfedredd yn Saesneg. Mae'r trawsnewidad yn anodd i Sarah. Dydy hi ddim eisiau mynd i'r ysgol ac mae'n mynd yn or-ddibynnol ar ei mam.
3. Mae rhieni Simon yn gofyn am gyngor gennych chi pan maen nhw'n dod i'w gasglu. Mae Simon yn 8 oed ac yn dangos ymddygiad heriol yn y cartref a'r ysgol. Mae Simon ar y sbectrwm awtistig.

Myfyriwch ar y 3 astudiaeth achos, yn ogystal â'ch profiadau eich hun yn y gweithle.

- Esboniwch sut y gall agweddau ar fagwraeth, amgylchiadau cartref ac iechyd corfforol ac emosiynol plant a phobl ifanc effeithio ar eu gallu i uniaethu ag eraill. Ychwanegwch enghreifftiau real lle bo hynny'n bosibl.
- Esboniwch sut y gallai iechyd meddwl effeithio ar fywyd plentyn neu berson ifanc.
- Esboniwch sut i weithio gyda phlant, pobl ifanc ac eraill i nodi a gosod nodau a ffiniau ymddygiad ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion datblygiad emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol.
- Myfyriwch ar o leiaf ddwy (2) ffordd o ddatblygu hunanddibyniaeth a hunan-barch i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion datblygiad emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol.

Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai enghreifftiau a myfyrdodau o brofiad mewn amgylchedd gwaith real gyfrannu at dystiolaeth ar gyfer y meini prawf.

Mae **Tasg 6** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 5 (MPA 5.1, 5.2)

Gwnewch rywfaint o ymchwil i'r gwahanol fathau o offer arbenigol ac adnoddau technoleg sydd ar gael i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau.

- Paratowch becyn adnoddau i staff ysgol/coleg gyfeirio ato sy'n disgrifio'r ystod o offer arbenigol ar gyfer y rhai sydd ag anghenion synhwyraidd neu gorfforol a myfyriwch ar sut mae'r adnoddau hyn yn helpu i oresgyn neu leihau effaith nam synhwyraidd neu gorfforol.

Dylai'r adnodd hefyd esbonio effaith anabledd sylfaenol ar ddatblygiad plant a phobl ifanc.

**STL3D15: Cefnogi plant a phobl ifanc yn ystod trawsnewidiadau (F/616/5978)**

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r uned** | Mae'r uned hon yn cwmpasu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i gefnogi plant a phobl ifanc drwy drawsnewidiadau yn eu bywydau. Mae'n gofyn am gymhwysedd wrth adnabod ac ymateb i arwyddion o drawsnewidiadau a'u cefnogi i reoli trawsnewidiadau a chyrraedd canlyniadau cadarnhaol. |
| **Gwerth credyd** | 4 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad** | 20 |
| **Lefel** | 3 |
| **Gorfodol/dewisol** | Gorfodol ar gyfer Diploma |

| | |
|---|---|
| **Enw'r dysgwr:** | |
| **Rhif Canolfan:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 1. Deall yr ystod o drawsnewidiadau y gallai plant a phobl ifanc eu profi a'u heffaith arnynt | 1.1. Esbonio'r gwahanol fathau o drawsnewidiadau y gallai plant a phobl ifanc eu profi | | |
| | 1.2 Esbonio sut y gall gwahanol fathau o drawsnewidiadau effeithio ar blentyn neu berson ifanc | | |
| | 1.3 Esbonio sut y gall agwedd plentyn neu berson ifanc at drawsnewidiadau gael ei effeithio gan eu:<br>• diwylliant<br>• crefydd<br>• credoau personol<br>• rhywedd<br>• cam datblygu<br>• profiadau blaenorol | | |
| | 1.4 Esbonio sut y gall trawsnewidiadau effeithio ar blant a phobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o gael eu gwahardd neu o dangyflawni | | |
| | 1.5 Esbonio pam y gallai fod angen cymorth ychwanegol ar blant a phobl ifanc ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig i reoli trawsnewidiadau | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 2. Gallu adnabod ac ymateb i drawsnewidiadau ym mywydau plant a phobl ifanc | 2.1 Esbonio'r arwyddion bod plentyn neu berson ifanc yn profi trawsnewidiad yn ei fywyd | | |
| | 2.2 Darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc archwilio a thrafod digwyddiadau a phrofiadau arwyddocaol a allai effeithio arnynt | | |
| | 2.3 Nodi arwyddion o bryder neu ofid mewn plant neu bobl ifanc a allai fod yn gysylltiedig â phrofiad o drawsnewid | | |
| | 2.4 Dangos sut i adnabod ac ystyried unrhyw arwyddion o newid yn agwedd ac ymddygiad plant neu bobl ifanc unigol | | |
| | 2.5 Defnyddio gweithdrefnau yn eu lleoliad gwaith eu hunain i rannu gwybodaeth neu bryderon am blant neu bobl ifanc gyda'r person priodol | | |
| 3. Gallu cefnogi plant a phobl ifanc i reoli trawsnewidiadau yn eu bywydau | 3.1 Dangos ffyrdd o gefnogi plant a phobl ifanc i reoli trawsnewidiadau yn eu bywydau | | |
| | 3.2 Darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc drafod effeithiau a chanlyniadau trawsnewidiad | | |

**Datganiad dilysrwydd y dysgwr:**
Rwy'n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.

Llofnod y dysgwr: Dyddiad:

**Aseswr yn cymeradwyo'r uned a gwblhawyd:** STL3D15
Rwy'n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth a sgiliau ar gyfer yr uned hon.

Enw'r aseswr:

Llofnod: Dyddiad:

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi'n bersonol a diogel.

**STL3D15: Cefnogi plant a phobl ifanc yn ystod trawsnewidiadau (F/616/5978) (parhad)**

| Tasgau asesu STL3C15: Cefnogi plant a phobl ifanc yn ystod trawsnewidiadau |
|---|
| Mae'r tasgau hyn nad ydynt yn rhai gorfodol wedi’u datblygu i gyflawni'r canlyniadau dysgu gwybodaeth ar gyfer yr uned hon.<br><br>Mae **Tasg 1** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 1 (MPA 1.1, 1.2 1.4)<br><br>Mae eich ysgol neu goleg yn hyrwyddo ac yn hybu llesiant plant a phobl ifanc trwy amrywiaeth o brosiectau y tymor hwn. Mae'r athro dosbarth wedi rhoi hysbysfwrdd i chi yn y coridor i ddarparu gwybodaeth am drawsnewidiadau.<br><br>• Cynhyrchwch daflen neu boster sydd wedi'i ddylunio ar gyfer yr hysbysfwrdd sy'n:<br>– esbonio’r gwahanol fathau o drawsnewidiadau y gallai plant a phobl ifanc eu profi<br>– esbonio sut y gall gwahanol fathau o drawsnewidiadau effeithio ar blentyn neu berson ifanc<br>– esbonio sut y gall trawsnewidiadau effeithio ar blant a phobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o gael eu gwahardd neu o dangyflawni.<br><br>Mae **Tasg 2** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 1 (MPA 1.3, 1,5)<br><br>Myfyriwch ar sut y gall trawsnewidiadau a digwyddiadau arwyddocaol eraill mewn bywyd effeithio ar blant a phobl ifanc.<br><br>• Esboniwch sut y gall agwedd plentyn neu berson ifanc at drawsnewidiadau gael ei effeithio gan y rhesymau canlynol:<br>– diwylliant<br>– crefydd<br>– credoau personol<br>– rhywedd<br>– cam datblygu<br>– profiadau blaenorol.<br>• Esboniwch pam y gallai fod angen cymorth ychwanegol ar blant a phobl ifanc ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig i reoli trawsnewidiadau. |

## STL3D16: Cefnogi rôl chwarae, hamdden a gweithgareddau allgyrsiol i blant a phobl ifanc (J/616/5979)

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r uned** | Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i gefnogi chwarae a hamdden plant a phobl ifanc. Mae'n gofyn am wybodaeth am weithgareddau chwarae a hamdden a helpu plant a phobl ifanc i reoli risg a her.<br>Mae'r uned hon hefyd yn archwilio dulliau cyfoethogi drwy weithgareddau allgyrsiol fel clwb astudio, gweithgaredd hamdden, tîm chwaraeon neu weithgaredd celfyddydau perfformio. |
| **Gwerth credyd** | 3 |
| **Oriau dysgu dan arweiniad** | 15 |
| **Lefel** | 3 |
| **Gorfodol/dewisol** | Gorfodol ar gyfer Diploma |

| | |
|---|---|
| **Enw'r dysgwr:** | |
| **Rhif Canolfan:** | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 1. Deall natur a phwysigrwydd chwarae a hamdden | 1.1 Disgrifio manteision chwarae a hamdden a sut maent yn cyfrannu at ddatblygiad plant a phobl ifanc | | |
| | 1.2 Gwahaniaethu rhwng chwarae a hamdden, a gweithgareddau a arweinir gan oedolion | | |
| | 1.3 Amlinellu gofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn perthynas ag ymlacio a chwarae | | |
| 2. Deall eu rôl eu hunain mewn perthynas â gofynion gweithgareddau chwarae a hamdden | 2.1 Disgrifio eu rôl eu hunain wrth gefnogi gweithgareddau chwarae a hamdden plant a phobl ifanc | | |
| | 2.2 Esbonio pwysigrwydd gwybod pryd i adael plant a phobl ifanc i chwarae neu ymlacio heb ymyrryd | | |
| | 2.3 Adnabod **addasiadau** y gellir eu gwneud i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau i gymryd rhan yn yr ystod lawn o gyfleoedd chwarae a hamdden a ddarperir | | |

| **Canlyniadau dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini prawf asesu**<br>**Mae'r dysgwr yn gallu:** | **Cofnod tystiolaeth**<br>**e.e. rhif tudalen & dull** | **Aseswr**<br>**Blaenlythrennau a dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 3. Deall sut i gydbwyso risg a her gyda manteision y cyfle chwarae a hamdden | 3.1 Esbonio gwerth risg a her mewn chwarae a hamdden plant a phobl ifanc | | |
| | 3.2 Disgrifio pam ei bod yn hanfodol i blant a phobl ifanc reoli risg a her drostynt eu hunain | | |

**Canllawiau asesu**

| **Cyflwyno ac asesu** |
|---|
| 2.3 **Addasiadau** y gellir eu gwneud i gefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn perthynas â:<br>• yr amgylchedd<br>• gweithgareddau<br>• arferion gwaith<br>• adnoddau. |

**Datganiad dilysrwydd y dysgwr:**
Rwy'n datgan mai fy ngwaith i fy hun yn gyfan gwbl sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer yr uned hon.

Llofnod y dysgwr: Dyddiad:

**Aseswr yn cymeradwyo'r uned a gwblhawyd:** STL3C16
Rwy'n cadarnhau bod y dysgwr wedi cyflawni gofynion yr holl feini prawf asesu o ran arddangos gwybodaeth a sgiliau ar gyfer yr uned hon.

Enw'r aseswr:

Llofnod: Dyddiad:

Nid oes angen llofnod ar gyfer e-bortffolio, cyn belled â bod y dysgwr yn gallu mewngofnodi'n bersonol a diogel.

**STL3D16: Cefnogi rôl chwarae, hamdden a gweithgareddau allgyrsiol i blant a phobl ifanc (J/616/5979) (parhad)**

| **Tasg asesu STL3D16: Cefnogi rôl chwarae, hamdden a gweithgareddau allgyrsiol i blant a phobl ifanc** |
|---|
| Mae'r tasgau hyn nad ydynt yn rhai gorfodol wedi'u datblygu i gyflawni'r canlyniadau dysgu gwybodaeth ar gyfer yr uned hon.<br><br>Mae **Tasg 1** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 1 (MPA 1.1, 1.3)<br><br>**Darllenwch yr astudiaeth achos cyn rhoi cynnig ar y dasg:**<br><br>Mae eich ysgol yn agor clwb cofleidiol newydd (clwb cyn ac ar ôl ysgol) a bydd yn cynnal prynhawn agored i groesawu rhieni, gofalwyr a phlant. Y nod yw hyrwyddo'r gweithgareddau allgyrsiol sydd ar gael yn yr ysgol a rhannu gwybodaeth am werth chwarae a hamdden i blant a phobl ifanc. Mae'r Pennaeth wedi gofyn i staff gynllunio'r digwyddiad.<br><br>• Paratowch daflen wybodaeth i'w rhannu yn y digwyddiad yn disgrifio:<br>– manteision chwarae a hamdden<br>– sut mae chwarae a hamdden yn cyfrannu at ddatblygiad plant a phobl ifanc<br>– amlinellu gofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn perthynas ag ymlacio a chwarae.<br><br>Mae **Tasg 2** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 1 (MPA 1.2) a chanlyniad dysgu 2 (MPA 2.1, 2.2, 2.3)<br><br>Mae angen i gynorthwywyr addysgu a staff cymorth ddeall sut i gefnogi plant a phobl ifanc yn eu gweithgareddau chwarae a hamdden, yn ogystal ag mewn amgylchedd dysgu ffurfiol.<br><br>• Mae'r dasg hon yn gofyn i chi greu cyflwyniad i'w rannu gyda chyfoedion sydd yn:<br>– gwahaniaethu rhwng chwarae a hamdden a gweithgareddau a arweinir gan oedolion<br>– disgrifio eich rôl eich hun wrth gefnogi gweithgareddau chwarae a hamdden plant a phobl ifanc<br>– esbonio pwysigrwydd gwybod pryd i adael plant a phobl ifanc i chwarae neu ymlacio heb ymyrryd<br>– adnabod addasiadau y gellir eu gwneud i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau i gymryd rhan yn yr ystod lawn o gyfleoedd chwarae a hamdden a ddarperir.<br><br>Mae **Tasg 3** yn cysylltu â chanlyniad dysgu 3 (MPA 3.1, 3,2)<br><br>**Darllenwch ac ystyriwch y senarios canlynol cyn rhoi cynnig ar y dasg.**<br><br>Mae'r athro dosbarth wedi cwblhau asesiad risg ar gyfer yr amgylchedd dysgu ar gyfer dosbarth blwyddyn un. Mae'r uned ddringo pren awyr agored a'r cerrig camu isel yn cael eu nodi fel gweithgareddau na fyddant ar gael i blant blwyddyn un yn ystod y sesiwn chwarae rhydd ar yr amserlen. Mae Lucas, y cynorthwyydd addysgu, yn teimlo bod llawer o bethau cadarnhaol i'w cael wrth i blant brofi risg a her mewn ffordd addas. Beth ddylai ef ei wneud?<br><br>Mae'r ysgol wedi ymgynghori â phlant a phobl ifanc blwyddyn 10 ynglŷn â thaith diwedd tymor oddi ar y safle. Mae'r mwyafrif am fynd i hwylio mewn clwb lleol ond mae'r athro dosbarth yn poeni am y risgiau. |

| **Tasg asesu STL3D16: Cefnogi rôl chwarae, hamdden a gweithgareddau allgyrsiol i blant a phobl ifanc** |
|---|
| Fe'ch gwahoddir i ddod i'r cyfarfod staff a rhannu eich syniadau ar y ddwy sefyllfa.<br><br>• Paratowch i gyfrannu at drafodaethau drwy greu taflen i'w dosbarthu i'r holl staff.<br><br>Dylai'r daflen hon:<br>– esbonio gwerth risg a her mewn chwarae a hamdden plant a phobl ifanc<br>– disgrifio pam ei bod yn hanfodol i blant a phobl ifanc reoli risg a her drostynt eu hunain. |

**Dulliau asesu a argymhellir**

Mae ystod o ddulliau asesu wedi'u hadnabod a'u hargymell, a gellir eu defnyddio ar gyfer yr unedau yn y cymwysterau hyn. Mae hyn yn rhoi cyfle i ystyried gwahanol arddulliau dysgu ac anghenion unigol dysgwyr.

Os ydych am ddefnyddio dull asesu nad yw wedi'i gynnwys yn y rhestr a argymhellir, dylech gysylltu â'ch Ymgynghorydd Ansawdd Allanol gyda manylion llawn am eich dull asesu arfaethedig. Mae'n rhaid i ni gymeradwyo'r dull yn ffurfiol cyn y gellir ei ddefnyddio.

Rhaid i bob dysgwr gynhyrchu tystiolaeth o dasgau asesu priodol, sy'n dangos cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu sy'n gysylltiedig â phob uned. [Nid yw graddau'n cael eu dyfarnu.]

Dylech gyfeirio at y nodiadau tystiolaeth tyst arbenigol ac efelychiad sy'n dilyn y tabl hwn.

| Cyf | Dull Asesu | Asesu Cymhwysedd/ Sgiliau | Asesu Gwybodaeth/ Dealltwriaeth |
|---|---|---|---|
| A | Arsylwi'r dysgwr yn uniongyrchol gan Diwtor/Athro/Aseswr*<br>• gan Diwtor/Athro/Aseswr sy'n cwrdd â strategaethau/egwyddorion asesu'r Cyngor Sgiliau Sector perthnasol neu strategaethau/egwyddorion asesu eraill.<br>*DS am ragor o fanylion gweler tudalen 81 | Ydy | Ydy |
| B | Trafodaeth broffesiynol | Ydy | Ydy |
| C | Tystiolaeth tyst arbenigol*<br>• dan gyfarwyddid y Cyngor Sector Sgiliau neu strategaethau/egwyddorion asesu eraill | Ydy | Ydy |
| D | Cynhyrchion gwaith y dysgwr ei hun | Ydy | Ydy |
| E | Cofnod neu ddyddiadur myfyriol y dysgwr | Ydy | Ydy |
| F | Cynllun gweithgaredd neu weithgaredd wedi'i drefnu | Ydy | Ydy |
| G | Arsylwi plant, pobl ifanc ac oedolion gan y dysgwr | Ydy | Ydy |
| H | Portffolio o dystiolaeth<br>• gall gynnwys efelychiad** | Ydy | Ydy |
| I | Cydnabod dysgu blaenorol | Ydy | Ydy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| J | Myfyrio ar eich ymarfer eich hun mewn amgylchedd gwaith real | Ydy | Ydy |
| K | Gwybodaeth ysgrifenedig a darluniadol | Nac ydy | Ydy |
| L | Senario neu astudiaeth achos | Nac ydy | Ydy |
| M | Tasg a osodwyd gan CACHE (ar gyfer canlyniadau dysgu gwybodaeth) | Nac ydy | Ydy |
| N | Holi ac ateb ar lafar | Ydy | Ydy |

* Dylid defnyddio **tystiolaeth tyst arbenigol** yn unol â'r strategaeth/egwyddorion asesu perthnasol. Mae'n rhaid arfer disgresiwn proffesiynol wrth ddefnyddio'r dull hwn, a dylid ei ddefnyddio'n unig lle na fyddai arsylwi yn addas. Mae'n rhaid i'r sawl sy'n darparu tystiolaeth tyst arbenigol fod yn ymarferwyr arweiniol gyda phrofiad o wneud dyfarniadau yn seiliedig ar gymhwysedd. Mae'r amgylchiadau canlynol yn rhai sy'n caniatáu tystiolaeth tyst arbenigol:

- lle gallai asesiad achosi gofid i unigolyn, fel cefnogi plentyn gydag angen penodol
- sefyllfa sy'n digwydd yn anaml iawn, fel delio gyda damwain neu salwch
- sefyllfaoedd cyfrinachol – fel cyfarfodydd strategaeth diogelu – lle na fyddai'n briodol i Aseswr arsylwi perfformiad y dysgwr.

**** Efelychiad.** Mae portffolio tystiolaeth dysgwr yn gallu cynnwys efelychu sgiliau cyn belled â bod y strategaeth/egwyddorion asesu perthnasol yn caniatáu hynny.

**Strategaethau ac egwyddorion asesu sy'n berthnasol i'r cymwysterau hyn**

Mae llawer o'r unedau a gynigiwn wedi cael eu datblygu yn unol â strategaethau neu egwyddorion asesu gwahanol Gynghorau Sgiliau Sector (CSSau) neu gennym ni lle nad oes arweiniad CSS.

Mae gofynion allweddol y strategaethau neu egwyddorion asesu sy'n berthnasol i'r unedau yn y cymwysterau hyn wedi'u crynhoi isod.

Mae'n rhaid i'r Ganolfan sicrhau bod unigolion sy'n gweithredu rolau Aseswr neu Swyddog Sicrhau Ansawdd o fewn y ganolfan yn cydymffurfio gyda gofynion asesu'r CSS neu ein gofynion asesu ar gyfer yr uned y maent yn ei hasesu neu'n sicrhau ei hansawdd.

**Strategaeth asesu**

**Canlyniadau dysgu gwybodaeth**

- Bydd yn rhaid i Aseswyr fod yn alwedigaethol wybodus ac yn gymwys i wneud penderfyniadau asesu
- Bydd yn rhaid i Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol fod yn alwedigaethol wybodus ac yn gymwys i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd.

**Canlyniadau dysgu Cymhwysedd/Sgiliau**

- Bydd yn rhaid i Aseswyr fod yn alwedigaethol gymwys ac yn gymwys i wneud penderfyniadau asesu
- Bydd yn rhaid i Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol fod yn alwedigaethol wybodus ac yn gymwys i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd.

**Gofynion ar gyfer Aseswyr a Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol**

Mae’n rhaid i ganolfannau sy’n cyflwyno unrhyw rai o gymwysterau NCFE:

- fod â nifer digonol o Aseswyr cymwys/profiadol i asesu gwaith y dysgwyr y bwriedir eu cofrestru
- bod â nifer digonol o Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol cymwys/profiadol i sicrhau ansawdd mewnol nifer yr Aseswyr a dysgwyr disgwyliedig
- sicrhau bod y staff sy’n ymwneud ag asesu a sicrhau ansawdd mewnol yn derbyn hyfforddiant addas ac yn ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus ystyrlon a pherthnasol
- gweithredu systemau a phrosesau sicrhau ansawdd mewnol effeithiol er mwyn sicrhau bod pob penderfyniad asesu yn ddibynadwy, yn gywir, yn addas, yn ddigonol a chyfoes. Dylai hyn gynnwys mesurau i sicrhau cysondeb wrth asesu
- sicrhau bod gan yr holl staff sy’n ymwneud â’r broses o sicrhau ansawdd ddigon o amser i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol.

**Aseswyr**

Dylai aseswyr y cymwysterau hyn fod â chymhwyster priodol i wneud penderfyniadau asesu. Er nad yw’n un o ofynion penodol y cymwysterau hyn, mae’n deg disgwyl bod Aseswyr yn meddu ar neu’n gweithio tuag at gymhwyster addas ym maes asesu. Os nad yw aelod o staff yn meddu ar gymhwyster perthnasol, dylai Aseswyr allu arddangos profiad perthnasol a chyfredol ym maes asesu.

Er mwyn asesu unedau sy'n seiliedig ar wybodaeth, dylai'r Aseswr fod yn alwedigaethol wybodus, h.y. meddu ar wybodaeth berthnasol i asesu unedau sydd wedi'u cynllunio i brofi gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr. Dylid arddangos y wybodaeth hon trwy gyfrwng cymwysterau/profiad perthnasol, ac ar lefel gyfwerth neu uwch na’r unedau sy’n cael eu hasesu.

Er mwyn asesu unedau sy'n seiliedig ar gymhwysedd, dylai'r Aseswr fod yn alwedigaethol gymwys, h.y. gallu cyflawni gofynion yr unedau y maent yn eu hasesu. Dylid arddangos y cymhwysedd trwy gyfrwng cymwysterau/profiad perthnasol, ac ar lefel gyfwerth neu uwch na’r unedau sy’n cael eu hasesu.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o gymwysterau/rolau y gall tiwtoriaid/athrawon/aseswyr eu dal i allu gwneud penderfyniadau wrth asesu dysgwyr:

- Cymhwyster Aseswr fel D32 / D33, A1 / A2 neu Ddyfarniad/Tystysgrif Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth
- Statws Athro Cymwysedig /Statws Proffesiynol Blynyddoedd Cynnar
- Tystysgrif Addysg mewn Addysg Ôl-orfodol (PCE)
- Tystysgrif Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes (CTLLS, DTLLS)

Ni fwriedir i unrhyw enghreifftiau a roddir fod yn gynhwysfawr nac yn ddiffiniol. Rhoddir enghreifftiau o gymwysterau perthnasol a chefndiroedd galwedigaethol fel meincnodau. Gall cymwysterau neu gefndiroedd cyfatebol eraill hefyd gymhwyso darpar staff ar gyfer rolau asesu. Dylai canolfannau sy'n awyddus i gael eglurhad pellach gysylltu â'u Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol yn y lle cyntaf.

**Sicrhau Ansawdd Mewnol**

Dylai pob aelod o staff sy’n ymwneud â sicrhau ansawdd ar gyfer y cymwysterau hyn fod yn gymwys i wneud penderfyniadau ynglŷn â sicrhau ansawdd. Er nad yw’n un o ofynion penodol y cymwysterau hyn, mae’n deg disgwyl bod staff sicrhau ansawdd mewnol yn meddu ar neu’n gweithio tuag at gymhwyster addas ym maes sicrhau ansawdd mewnol. Os nad yw aelod o staff yn meddu ar gymhwyster perthnasol, dylai Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol allu arddangos profiad perthnasol a chyfredol ym maes sicrhau ansawdd mewnol.

Er mwyn sicrhau ansawdd penderfyniadau asesu, dylai aelodau o staff sy’n gyfrifol am sicrhau ansawdd mewnol fod yn alwedigaethol wybodus, h.y. yn meddu ar wybodaeth berthnasol ynglŷn â’r unedau y byddant yn eu hasesu o ran ansawdd.  Dylid arddangos y wybodaeth hon trwy gyfrwng cymwysterau/profiad perthnasol, ac ar lefel gyfwerth neu uwch na’r unedau sy’n cael eu hasesu.

**Enghreifftiau o gymwysterau/profiad perthnasol**

Mae'r adran hon yn darparu enghreifftiau o gymwysterau/profiad perthnasol i ddangos gwybodaeth/ cymhwysedd galwedigaethol ar gyfer Aseswyr a Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol. Ni fwriedir i'r canllawiau yn yr adran hon fod yn gynhwysfawr nac yn ddiffiniol. Rhoddir enghreifftiau o gymwysterau perthnasol a chefndiroedd galwedigaethol fel meincnodau. Gall cymwysterau neu gefndiroedd cyfatebol eraill hefyd gymhwyso darpar staff ar gyfer rolau asesu/sicrhau ansawdd mewnol.

**Enghreifftiau o gymwysterau perthnasol**

- Diploma Lefel 5 mewn Addysg a Hyfforddiant (DET)
- Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR).

**Enghreifftiau o brofiad galwedigaethol**

- Athro, darlithydd, cofnod profedig o brofiad mewn amgylchedd dysgu lle gellir dangos tystiolaeth o oruchwylio darpariaeth ac asesu.

Nid ydym yn gyfrifol am unrhyw gymhlethdodau sy’n codi wrth gyflwyno, asesu nac wrth sicrhau ansawdd mewnol o ganlyniad i recriwtio mewnol a phenderfyniadau yn ymwneud â hyfforddiant. Y Canolfannau unigol sy’n gyfrifol am benderfyniadau ynglŷn â recriwtio a hyfforddi staff. Dylai Canolfannau fod yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau yn ôl y Cytundeb hwn gyda ni i sicrhau bod unrhyw aelod o staff sy’n gyfrifol am gyflwyno, asesu a sicrhau ansawdd mewnol ein cymwysterau yn gymwys/profiadol.

# Adran 3

## Esboniad o dermau

**Esboniad o dermau**

Mae'r tabl hwn yn esbonio sut mae'r termau a ddefnyddir ar Lefel 3 yng nghynnwys yr uned yn cael eu cymhwyso i'r cymhwyster hwn (nid yw pob berf yn cael ei defnyddio yn y cymhwyster hwn).

| | |
|---|---|
| **Adolygu a diwygio** | Edrych yn ôl dros y pwnc a gwneud cywiriadau neu newidiadau. |
| **Allosod** | Defnyddio gwybodaeth flaenorol i ragfynegi canlyniadau posibl a allai fod y tu hwnt i'r norm. |
| **Amcangyfrif** | Cynnig amcangyfrif o benderfyniad neu farn gan ddefnyddio gwybodaeth flaenorol neu ystyried gwybodaeth arall. |
| **Arddangos** | Dangos dealltwriaeth trwy ddisgrifio, egluro neu ddangos gan ddefnyddio enghreifftiau. |
| **Barnu** | Ffurfio barn neu wneud penderfyniad |
| **Coladu** | Casglu a chyflwyno gwybodaeth mewn trefn ddilyniannol neu resymegol. |
| **Crynhoi** | Rhoi'r prif syniadau neu ffeithiau mewn ffordd gryno. |
| **Cyfiawnhau** | Rhoi esboniad boddhaol dros weithredoedd neu benderfyniadau. |
| **Cymharu** | Archwilio'r pynciau'n fanwl gan edrych ar y tebygrwydd a'r gwahaniaethau. |
| **Cymharu'n feirniadol** | Dyma ddatblygiad o 'cymharu' lle mae'r dysgwr yn ystyried agweddau positif a chyfyngiadau'r pwnc. |
| **Cymhwyso** | Egluro sut y gellir cysylltu gwybodaeth sydd ar gael eisoes i sefyllfaoedd newydd neu wahanol. |
| **Cynllunio** | Ystyried a threfnu gwybodaeth mewn ffordd resymegol gan ddefnyddio ffurf addas. |
| **Dadansoddi** | Rhannu'r pwnc yn rannau unigol ac archwilio pob un. Dangos y cysylltiad rhwng y prif syniadau a pham eu bod yn bwysig. Mae cyfeirio at ymchwil neu ddamcaniaeth gyfredol yn gallu cefnogi'r dadansoddiad. |
| **Dangos** | Darparu tystiolaeth i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gywir. |
| **Darparu** | Nodi a rhoi gwybodaeth berthnasol a manwl mewn perthynas â'r pwnc. |
| **Datblygu (cynllun/syniad sy'n…)** | Ehangu cynllun neu syniad trwy ychwanegu mwy o fanylion a/neu ddyfnder y wybodaeth. |
| **Datgan** | Rhoi'r prif bwyntiau yn glir mewn brawddegau neu baragraffau. |
| **Dehongli** | Esbonio ystyr rhywbeth |
| **Dewis** | Gwneud dewis gwybodus ar gyfer pwrpas penodol. |

| | |
|---|---|
| **Disgrifio** | Ysgrifennu am y pwnc gan gynnig gwybodaeth fanwl mewn ffordd resymegol. |
| **Dod i gasgliad (sy'n…)** | Gwneud penderfyniad neu ddyfarniad terfynol yn seiliedig ar resymau. |
| **Dosbarthu** | Trefnu yn unol â meini prawf penodol. |
| **Egluro** | Esbonio'r wybodaeth mewn modd eglur a chryno. |
| **Esbonio** | Darparu manylion am y pwnc gyda rhesymau'n dangos sut neu pam. Gallai atebion gynnwys enghreifftiau i gefnogi'r rhesymau hyn. |
| **Gwahaniaethu** | Nodi'r gwahaniaethau rhwng dau neu fwy o bethau. |
| **Gweithredu** | Esbonio sut i roi syniad neu gynllun ar waith. |
| **Gwerthuso** | Archwilio cryfderau a gwendidau, dadleuon o blaid ac yn erbyn, a/neu nodweddion tebyg ac annhebyg. Barnu'r dystiolaeth o'r gwahanol safbwyntiau a llunio casgliad dilys neu ddyfarniad rhesymegol. Mae cyfeirio at ymchwil neu ddamcaniaeth gyfredol yn gallu cefnogi'r gwerthusiad. |
| **Gwneud diagnosis** | Adnabod yr achos yn seiliedig ar dystiolaeth ddilys. |
| **Hynodi** | Esbonio'r gwahaniaeth rhwng dau neu fwy o eitemau, adnoddau, darnau o wybodaeth. |
| **Myfyrio** | Dylai dysgwyr ystyried eu gweithredoedd, eu profiadau neu eu dysgu a goblygiadau hyn ar gyfer eu hymarfer a/neu ddatblygiad proffesiynol. |
| **Nodi** | Adnabod ac enwi'r prif bwyntiau yn gywir. (Efallai y bydd ychydig o ddisgrifiad yn angenrheidiol hefyd i sicrhau marciau uwch wrth ddefnyddio dull marcio cydadferol). |
| **Perfformio** | Cyflawni tasg neu broses yn unol â gofynion y cwestiwn. |
| **Trafod** | Ysgrifennu adroddiad manwl yn rhoi ystod o safbwyntiau neu farnau. |
| **Ystyriwch** | Meddwl yn ofalus ac ysgrifennu am broblem, gweithred neu benderfyniad. |

# Adran 4

## Gwybodaeth ychwanegol

## Gwybodaeth ychwanegol

### Gofynion o ran adnoddau

Nid oes unrhyw ofynion adnoddau penodol ar gyfer y cymwysterau hyn ond rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad at adnoddau addas i'w galluogi i gwmpasu'r holl ganlyniadau dysgu priodol.

### Canllawiau diogelu

Er mwyn cefnogi lleoliadau blynyddoedd cynnar, mae Gweithgor Addysg UKCIS wedi datblygu dwy ddogfen i helpu rheolwyr a staff lleoliadau blynyddoedd cynnar i ystyried eu harfer ac i gymryd camau i ddiogelu plant ac oedolion ar-lein. I gael gafael ar y dogfennau, ewch i: https://www.gov.uk/government/publications/safeguarding-children-and-protecting-professionals-in-early-years-settings-online-safety-considerations

### Cymorth i ganolfannau

### Ffeithiau Allweddol

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu gwybodaeth allweddol y cymwysterau hyn ar gyfer y ganolfan, y dysgwr a'r cyflogwr.

### Adnoddau dysgu

Rydym yn cynnig ystod eang o adnoddau a deunyddiau dysgu i gefnogi cyflwyno ein cymwysterau. Edrychwch ar y dudalen Cymwysterau ar wefan NCFE am fwy o wybodaeth ac i weld beth sydd ar gael ar gyfer y cymwysterau hyn.

### Cyfresi wedi'u nythu

Gall dysgwyr symud ymlaen rhwng cymwysterau yn y gyfres e.e. o Ddyfarniad i Dystysgrif neu o Ddiploma i Ddiploma Estynedig. Yn yr achos hwn, bydd ffi trosi yn berthnasol:

- os yw'r cymhwyster newydd yn ddrutach na'r gwreiddiol, codir y gwahaniaeth yn y pris, ynghyd â ffi atodol
- os yw'r cymhwyster newydd yr un pris neu'n is na'r cymhwyster gwreiddiol, yr unig gost ychwanegol yw'r ffi atodol.

Os yw'r dysgwr eisoes wedi cyflawni'r asesiad allanol ar y cymhwyster gwreiddiol, codir y gwahaniaeth rhwng y cymhwyster gwreiddiol a'r cymhwyster atodol.

Ewch i'r Canllawiau Ffioedd a Phrisio cyfredol ar y dudalen Polisïau & Dogfennau ar wefan NCFE am ragor o wybodaeth.

**Cysylltu â ni**

NCFE
Q6
Quorum Park
Benton Lane
Newcastle upon Tyne
NE12 8BT

Ffôn: 0191 239 8000*
Ffacs: 0191 239 8001
E-bost: customersupport@ncfe.org.uk
Gwefan: www.ncfe.org.uk

**Hawlfraint NCFE © 2023 Cedwir pob hawl yn fyd-eang**

Fersiwn 6.3 Mehefin 2023
Mae'r wybodaeth yn y fanyleb gymhwyster hon yn gywir adeg ei chyhoeddi ond gall fod yn destun newid.

Mae NCFE yn elusen gofrestredig (Rhif Elusen Gofrestredig 1034808) ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant (Rhif Cwmni 2896700).

Mae CACHE; Council for Awards in Care, Health and Education; a NNEB yn nodau masnach cofrestredig sy'n eiddo i NCFE.

Mae'r holl ddeunydd yn y cyhoeddiad hwn yn cael ei warchod gan hawlfraint.

***I barhau i wella ein lefelau gwasanaeth cwsmeriaid, gall galwadau ffôn gael eu recordio at ddibenion hyfforddiant ac ansawdd.***